Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol
Estyn
Y Comisiwn Gofal Iechyd
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM
Arolygiaeth Carchardai EM
Arolygiaeth Prawf EM
Y Swyddfa Safonau Mewn Addysg
Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru



Arolygiad ar y Cyd o Dimau Troseddau Ieuenctid Cymru a Lloegr

Adroddiad ar: Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Powys

ISBN 1 84473 979 1

2006

Cyhoeddwyd gan COI ar ran Arolygiaeth Prawf EM.
Ionawr 2007. Ref: 274095

Rhagair

Cafodd Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Powys ei arolygu yn ystod trydydd cyfnod y rhaglen arolygu. Cawsom dîm a oedd wedi dioddef diffyg adnoddau, arweinyddiaeth a chyfeiriad ers ei sefydlu'n Dîm Troseddau Ieuenctid y Canolbarth yn 2000. Ar ben hynny, ychydig o newid cadarnhaol oedd wedi ei gyflawni yn dilyn ei ailffurfio'n GTI Powys yn Ebrill 2005, er gwaethaf ymdrechion sylweddol rheolwr y GTI a benodwyd yn Awst 2005.

Roedd hanes y GTI wedi effeithio'n negyddol ar forâl y staff ac, yn ei dro, ar ei berfformiad. Serch hynny, gwelsom staff unigol wedi'u hymrwymo i weithio gyda phlant a phobl ifanc, gyda rhai enghreifftiau da o waith arloesol ac adeiladol. Cawsom hefyd fod agweddau, ac felly perfformiad, yn dechrau newid, ond bod y newidiadau hyn yn nyddiau cynnar iawn eu datblygiad. Roedd rheolwr y GTI wedi cyflwyno arweinyddiaeth a rheolaeth fwy effeithiol, ac wedi llwyddo i gael adnoddau ychwanegol a oedd wedi rhoi credadwyedd iddi ymhlith y staff a chyrff partner fel ei gilydd.

Ein hasesiad cyffredinol o berfformiad GTI Powys oedd ei fod ar gyfnod cynnar iawn yn ei ddatblygiad ac, adeg yr arolygiad, roedd ei ddyfodol yn ansicr. Gan hynny, bydd y GTI felly'n destun ymweliad arall cyn pen 12 mis i fonitro ei gynnydd. Credwn fod yr adroddiad hwn yn cynnwys nifer o argymhellion a fydd yn cynorthwyo'r GTI i ymsefydlu'n gadarn ar lefelau strategol a gweithredol.

Andrew Bridges
Prif Arolygydd Prawf EM

Tachwedd 2006

Gwnaed gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn yn ystod Ebrill a Mehefin 2006.

Cynnwys

		Tudalen
	Cydnabyddiaethau	3
	Geirfa	4
	Cyflwyniad	6
	Trosolwg o'r ardal	7
	Crynodeb sgorio	8
	Materion amrywiaeth	8
	Ystadegau allweddol	10
	Canfyddiadau allweddol	11
1.	RHEOLI	16
2.	GWAITH YN Y LLYSOEDD	23
3.	GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YN Y GYMUNED	28
4.	GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SY'N DESTUN GCHau	40
5.	DIODDEFWYR A CHYFIAWNDER ADFEROL	44
	Arolygu TTIau ar y cyd	47
	Trefniadau arolygu	48
	Cod ymarfer	49
	Dull sgorio	50
	Y camau nesaf	51
	Meini prawf arolygu TTI yn Lloegr	52

Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i holl staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, aelodau'r Bwrdd Rheoli a sefydliadau partner am eu cymorth i sicrhau y cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ddidrafferth.

Prif Arolygydd	*John Llewellyn Thomas Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru*
Arolygwyr	*Steve Blackburn Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM, Margaret Dexter Y Comisiwn Gofal Iechyd, Joe Simpson a Rose Burgess Arolygiaeth Prawf EM, Claire Yardley Arolygiaeth EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*
Aseswyr Ymarfer	*Nicola Molloy a Stephen Hubbard*
Staff Ategol	*Natalie Dewsnap, Grace Dickin, Lynn Carroll*
Tîm Cyhoeddiadau	*Zach Rathore, Saima Ejaz*
Golygydd	*Liz Calderbank Arolygiaeth Prawf EM*
Cynrychiolydd TTI	*John Gaughan*

Geirfa

PAAP	Pwyllgor Ardal Amddiffyn Plant
GYG	Gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol
Asset	Erfyn asesu a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
APB	Asesiad Perfformiad Blynyddol
CAMHS	Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc
APC	Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr
GEG	Gwasanaeth Erlyn y Goron
SCT	Swyddfa Cofnodion Troseddol
CAGC	Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol
PDC	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
PPPI	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
GCH	Gorchymyn carchariad a hyfforddi
Estyn	Arolygiaeth EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
AHCh	Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth
ACEM	Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM
Arolygiaeth Carchardai EM	Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
Arolygiaeth Prawf EM	Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
RhGGDd	Rhaglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys
TG	Technoleg Gwybodaeth
AAC	Adolygiad Ardal ar y Cyd
BILl	Bwrdd Iechyd Lleol
MAPPA	Trefniadau Amlasiantaeth ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd
NACRO	Cymdeithas Genedlaethol dros Ofal ac Adsefydlu Troseddwyr
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
RhCA	Rhwydwaith Coleg Agored
Ofsted	Swyddfa Safonau Addysg
CCAP	Canolfan Cyffuriau ac Alcohol Powys
PPO	Troseddwyr toreithiog a throseddwyr eraill sy'n flaenoriaeth
ACD	Adroddiad Cyn Dedfrydu

PN	Perygl Niwed
PND	Perygl Niwed Difrifol
SIFA	Cyfweliad sgrinio i bobl ifanc
SQUIFA	Cyfweliad holiadur sgrinio i bobl ifanc
CLG	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
CAMPUS	Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol
AGCC	Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
SAC	Swyddfa Archwilio Cymru
RhCG	Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella
BCI	Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
GTI	Gwasanaeth a Troseddau Ieuenctid
TTI	Tîm Troseddau Ieuenctid

Cyflwyniad

Cychwynnodd rhaglen cyd-arolygu TTI ym mis Medi 2003, a dyma'r rhaglen arolygu gyntaf i archwilio gwaith y TTIau. Gweithredir y rhaglen mewn tri chyfnod ac mae'n cynnwys pob un o 156 TTI Cymru a Lloegr yn ystod cylch o bum mlynedd.

Cychwynnodd hwn, sef trydydd cyfnod yr arolygiad, ym mis Medi 2005 ac mae'n cynnwys pob TTI na chawsant eu harolygu'n flaenorol yn ystod cyfnodau un a dau. Datblygwyd ei fethodoleg i gyflenwi methodoleg AACau Gwasanaethau Plant yn Lloegr, ac arolygiadau a wnaed fel rhan o RhCG, a Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid o dan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 yng Nghymru. Er bod y rhaglen TTI yn parhau'n broses wahanol yng Nghymru a Lloegr, cynhelir arolygiadau o fewn amserlen debyg i'r trefniadau arolygu eraill hyn lle bynnag y bo modd, fel y gellir rhesymoli a lleihau unrhyw feysydd posibl ar gyfer gorgyffwrdd neu ddyblygu.

Mae arolygiad TTI yn cynnwys pum maes gwaith craidd:

- rheoli, gan gynnwys rôl a gweithrediad y Bwrdd lleol
- gwaith yn y llysoedd
- gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned
- gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun GCHau
- dioddefwyr a chyfiawnder adferol.

Mae canfyddiadau'r arolygiad TTI yn llywio nid yn unig yr AAC ond hefyd yr Asesiad Corfforaethol, APB ac APC yn Lloegr, ac yng Nghymru cynhelir arolygiadau fel rhan o RhCG a Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid.

Ar ôl cwblhau'r arolygiad, gofynnir i'r TTI baratoi cynllun gweithredu sy'n ymateb i'r argymhellion. Ar ôl cytuno arno, trosglwyddir y cynllun gweithredu i'r BCI fonitro ei weithredu.

Trosolwg

- Lleolir awdurdod unedol Powys yng Nghanolbarth Cymru, ac mae'n cynnwys siroedd Maldwyn, Maesyfed a'r rhan fwyaf o Sir Frycheiniog.
- Cyfanswm poblogaeth Powys oedd 126,354, a fesurwyd yng Nghyfrifiad 2001. O'r boblogaeth hon, roedd 22% rhwng 0-17 oed adeg y cyfrifiad. Roedd y ffigur hwn yn is na'r cyfartaledd o 22.8% ar gyfer Cymru gyfan.
- Roedd poblogaeth Powys yn wyn yn bennaf, ar 99.1%, sy'n uwch na'r cyfartaledd o 97.9% ar gyfer Cymru. Roedd canran y trigolion Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, ar 0.3% ym Mhowys, yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 0.9%. Roedd canran y trigolion Du neu Ddu Brydeinig, ar 0.1%, hefyd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 0.3%.
- 62% oedd lefel cyflogaeth Powys ac roedd hyn lawer yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 55.2% adeg y cyfrifiad. 2.7% oedd lefel y diweithdra, ac roedd hyn yn gyfatebol is na'r cyfartaledd o 3.5% ar gyfer Cymru. Roedd canran is o fyfyrwyr, yn rhai economaidd actif ac economaidd anactif, yn byw yn Sir y Fflint nag yn genedlaethol adeg y cyfrifiad: 5.1% o'i chymharu â 7.4% ledled Cymru.
- Cofnododd Cyfrifiad 2001 fod 16.0% o boblogaeth Powys, a oedd yn dair blwydd oed ac yn hŷn, naill ai'n gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg. Roedd hyn ychydig yn is na'r cyfartaledd o 16.3% ar gyfer Cymru.
- Dyfarnodd crynodeb y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid o berfformiad TTI yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer Ebrill 2005 – Mawrth 2006 lefel 2 i berfformiad GTI Powys.

Crynodeb sgorio

4: Rhagorol; 3: Da; 2: Digonol; 1: Annigonol.

	Sgôr adran
Rheoli	**1**
Gwaith yn y llysoedd	**1**
Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned	**1**
Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun GCHau	**1**
Dioddefwyr a chyfiawnder adferol	**2**

Asesiad cyffredinol

Cawsom GTI a oedd yn nyddiau cynnar iawn ei ddatblygiad. Deuddeg mis ar ôl ei sefydlu'n corff ar wahân ac annibynnol, roedd y Bwrdd Rheoli heb ei gyfansoddi'n briodol o hyd. Ychydig o brotocolau cyfredol a chytundebau lefel gwasanaeth a oedd yn eu lle ag asiantaethau partner, ac roedd strwythur staffio'r GTI yn annigonol. Gan hynny, roedd yn methu â bodloni ei gyfrifoldebau o ran ei lwyth gwaith na darparu cefnogaeth briodol i'r staff. Ategwyd hyn gan ofod swyddfa annigonol, a gyfyngai ar y mynediad i gyfleusterau addas ar gyfer cyswllt â phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr. Golygai'r gwendidau hyn fod ansawdd y gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn annigonol yn gyffredinol a bod angen sylw brys arno i ddiogelu plant a phobl ifanc a'r gymuned ehangach fel ei gilydd.

Oherwydd y gyfradd ddatblygiad araf a nodwyd yn ystod wythnos gyntaf yr arolygiad yn Ebrill 2006, ysgrifennodd yr arolygydd arweiniol at Brif Weithredwr Cyngor Sir Powys a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli, gan dynnu eu sylw at rai pryderon difrifol. Erbyn ail wythnos yr arolygiad ym Mehefin 2006, braf oedd nodi bod y Bwrdd Rheoli wedi cynnal cyfarfod arbennig ym Mai 2006, ac wedi cytuno ar gynnwys Cynllun Adfer Cychwynnol GTI. Trefnwyd bod y cynllun hwn ar gael i'r tîm arolygu.

Materion amrywiaeth

Dangosodd y trosolwg o'r ardal fod gan Bowys boblogaeth wyn yn bennaf. Hefyd roedd y ganran o drigolion Asiaidd, Asiaidd Du neu Ddu Prydeinig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol; fel yr oedd y gyfran o'r boblogaeth a oedd yn dair oed neu'n hŷn, a allai siarad, darllen neu ysgrifennu'r Gymraeg. Dangosodd dadansoddiad o'r ffeil achosion fod y plant a'r bobl ifanc yn wyn ac yn Gymreig/Prydeinig gan amlaf.

Roedd y Bwrdd Rheoli a'r grŵp staff yn ymddangos yn amrywiol yn nhermau rhyw ond nid yn ei allu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd gan Bowys bocedi o gymunedau Cymraeg yng ngogledd a de'r sir, yn ogystal ag addysg ddwyieithog, felly roedd hwn yn ddiffyg arwyddocaol. Serch hynny, cawsom fod y GTI yn ceisio darparu dewis o ran iaith drwy fynediad i gyfleusterau cyfieithu a thrwy gynhyrchu taflenni gwybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ill dwy. Dywedwyd wrthym ni hefyd fod un aelod o staff y GTI yn siarad Cymraeg. Nid oedd gan y GTI unrhyw gynrychiolwyr o gymunedau Asiaidd, Du nac unrhyw gymunedau eraill.

Ni roddwyd unrhyw dystiolaeth i ni o hyfforddiant amrywiaeth ar gyfer y staff, a chawsom o'r sampl o achosion arferion anghyson o ran materion amrywiaeth fel hil, diwylliant, iaith, anabledd a rhyw yn yr achosion unigol yr edrychwyd arnynt.

Ystadegau allweddol

Ystadegyn darllen ffeiliau	Sgôr darllen ffeiliau'r GTI	Cyfartaledd ar gyfer TTIau cyfnod dau	Ystod TTIau cyfnod dau	Targedau BCI
	(% achosion)			
Cwblhawyd asesiad cychwynnol yn unol â gofynion safonau cenedlaethol: – prydlondeb	75%	84%	70-97%	100%
– ansawdd digonol	42%	71%	29-93%	
Cwblhawyd asesiad llawn o berygl niwed i eraill ar achosion perthnasol	75%	54%	17-83%	
Tystiolaeth o arolygiaeth gan reolwyr mewn achosion perygl niwed	0%	41%	0-100%	
Y Cynllun Goruchwylio Cychwynnol yn bodloni gofynion cynnwys y safonau cenedlaethol ac yn cynnwys amcanion cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol	8%	52%	17-96%	100%(1)
Amlder apwyntiadau a drefnwyd yn cydymffurfio'n fras â safonau cenedlaethol, â gofynion gorchymyn/trwydded, a chydag unrhyw ystyriaethau o ran perygl niwed	68%	75%	52-100%	
Dyfarniadau am dderbynioldeb/annerbynioldeb absenoldebau yn briodol	64%	71%	40-96%	
Cymerwyd camau adwyo/ adalw, yn ôl y gofyn, yn unol ag amserlen y safonau cenedlaethol	43%	49%	13-100%	
Dim tystiolaeth o unrhyw weithgaredd troseddol yn ystod cyfnod y gorchymyn	66%	71%	52-48%	
Cymerwyd camau priodol os ystyrir bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl o niweidio'i hun neu o gael ei niweidio gan eraill	67%	95%	67-100%	
Cymerir camau effeithiol lle ceir tystiolaeth o anawsterau addysgiadol	62%	60%	33-81%	90%(2)
Gwneir cyfeiriadau priodol mewn achosion: – iechyd corfforol	67%	d/g	d/g	
– iechyd meddwl/emosiynol	45%	d/g	d/g	100%(3)
– camddefnyddio sylweddau	72%	d/g	d/g	100%(4)
Ymgynghorwyd â dioddefwr ynghylch gwaith cyfiawnder adferol/atgyweiriol â phlentyn neu berson ifanc	63%	45%	6-72%	
Asesiad o ansawdd cyffredinol adroddiadau cyn-dedfryd	0%	d/g	d/g	

(1) Yn ymwneud â chynlluniau cadw a hyfforddi
(2) Mewn Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg amser llawn
(3) Cyfeiriadau Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc
(4) Sgrinio a chyfeiriadau

Canfyddiadau allweddol

Rheolaeth - Cawsom GTI a oedd yn dal yn nyddiau cynnar ei ddatblygiad. Roedd ystyriaethau o ran lefel y cyllid, yr adnoddau a oedd ar gael i'r GTI, cynrychiolaeth, presenoldeb, a dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau gan aelodau o'r Bwrdd Rheoli. Yn ogystal, roedd angen adolygu protocolau a chytundebau lefel gwasanaeth asiantaethau partner ac eraill. Cawsom fod y Bwrdd Rheoli yng nghyfnod cyntaf ei ddatblygiad ac, o ganlyniad, nad oedd gwaith gweithredol y GTI yn derbyn adnoddau na chefnogaeth ddigonol i fodloni'r safonau cenedlaethol gofynnol.

Roedd y Bwrdd Rheoli yn dechrau arfer arweinyddiaeth. Bu Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli, wedi'u cefnogi gan reolwr y GTI, yn hanfodol i'r broses hon ac wedi cychwyn proses a oedd wedi arwain at Gynllun Adfer Cychwynnol y GTI ym Mai 2006. Roeddent wedi nodi cryfderau a gwendidau'r gwasanaeth, ac wedi dangos yr ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol i fwrw ymlaen â'r cynllun hwn ar lefelau strategol a gweithredol.

O ystyried y cefndir hwn, roedd yn hanfodol bod sylw'n cael ei rhoi i ymrwymiad partneriaid y GTI. Yn y cyd-destun hwn, credwn y bydd Cynllun Adfer Cychwynnol y GTI, a'r argymhellion sy'n deillio o'r arolygiad hwn, yn cynnig prawf llym o'r ymrwymiad hwn a gallu i effeithio ar newid a'i reoli.

Gwaith yn y llysoedd – Roedd cysylltiadau rhwng y GTI a'r llysoedd yn dda ac roedd strwythurau yn eu lle i adolygu'r trefniadau gweithio'n gyson drwy'r grwpiau defnyddwyr llysoedd amrywiol. Serch hynny, nid oedd gan y GTI gytundeb lefel gwasanaeth cyfredol yn ei le â Phrif Weithredwr yr Ynadon a rheolwr Llys y Goron lleol yn ymdrin â'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau'r llysoedd yn yr ardal. Cafodd cytundeb lefel gwasanaeth drafft ei weld yn ystod yr arolygiad, ond nid oedd wedi'i gytuno'n ffurfiol oherwydd yr oedi wrth gael cytundeb rhwng pedwar TTI a phedair ardal llys yn ardal Dyfed Powys.

Roedd staff y GTI sy'n gyfrifol am waith llys yn gweithio'n effeithiol gyda'r ynadon, gan ddarparu gwybodaeth berthnasol yn brydlon i ddedfryd gael ei bennu. Roeddent hefyd yn gweithio'n effeithiol â phobl ifanc a'u rhieni, gan eu cefnogi drwy'r broses gan gynnwys yn dilyn dedfrydu. Serch hynny, nid oedd safon ansawdd adroddiadau cyn dedfrydu'n gyson a methodd â bodloni safonau cenedlaethol mewn rhai meysydd allweddol. Roedd pryder gennym y byddai nifer fach o blant a phobl ifanc, oherwydd y diffyg llety a oedd ar gael, weithiau'n cael eu mechnïo i lety gwely a brecwast a llety hostel anaddas.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned – Gweithiodd y GTI mewn partneriaeth ag ystod o asiantaethau i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu, ond yn aml roedd yr ymyriadau wedi'u seilio ar symbyliad unigol yn hytrach na gweithredu cynllun strategol cadarn. Yn y cyd-destun hwn roedd rhai enghreifftiau da o waith gyda phobl ifanc unigol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Y Prosiect Moduron, Her Powys a gwaith

partneriaeth rhwng y GTI, Coleg Powys ac ysgolion. Hefyd gwnaed peth defnydd cadarnhaol ar arian diogelwch cymunedol i gefnogi pobl ifanc yn y gymuned.

Er i ni weld rhai enghreifftiau unigol o waith da, roedd asesu yn gyffredinol o dan y safon ofynnol, roedd cynlluniau goruchwylio'n wan, ac ni chynhaliwyd adolygiadau ond mewn nifer fach iawn o achosion. Roedd angen rhoi sylw hefyd i waith unigol gyda phlant a phobl ifanc ynglŷn ag asesu a rheoli'r Perygl o Niwed a diogelu. Roedd absenoldeb rheolwyr tîm gweithredol yn y strwythur staff yn wendid arwyddocaol yn y cyd-destun hwn gan nad oedd unrhyw oruchwyliaeth dros staff gan reolwyr.

Roedd absenoldeb cyngor arbenigol effeithiol am addysg, iechyd a gyrfaoedd yn fwlch arwyddocaol hefyd a olygodd nad oedd cynnydd digonol yn cael ei wneud yn y meysydd hyn. Cawsom ddiffygion difrifol o ran yr adnoddau a oedd ar gael i bobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl, ac roedd angen gwella asesiad a thriniaeth pobl ifanc â chanddynt anghenion oherwydd camddefnydd sylweddau ac alcohol.

Darparwyd ystod o wasanaethau drwy'r Bwrdd Iechyd lleol i blant a phobl ifanc a oedd yn dangos ymddygiad gwrthgymdeithasol a/neu a oedd mewn perygl o gael eu gwahardd o'r ysgol, a oedd i gyd ar agor i gyfeiriadau oddi wrth y GTI. Adeg yr arolygiad, fodd bynnag, roedd y gyfradd gyfeirio'n isel, a awgrymodd nad oedd defnydd llawn yn cael ei wneud o'r cyfleusterau hyn.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion carchariad a hyfforddiant - Dangosodd yr holl achosion o orchmynion carchariad a hyfforddiant a archwiliwyd fel rhan o'r arolygiad ddiffygion sylweddol. Serch hynny, roedd y cyswllt â gwasanaethau plant a gwasanaethau iechyd yn wan a golygodd y diffyg mewnbwn gwasanaethau addysg, iechyd a gyrfaoedd arbenigol a gwasanaethau cyffuriau ac alcohol i'r GTI nad oedd y materion hyn yn cael sylw i safon ddigonol wrth ddychwelyd i'r gymuned. O ganlyniad, mewn tair allan o bedair ffeil achos a archwiliwyd, roedd y bobl ifanc dan sylw wedi methu â chydymffurfio ag amodau eu trwydded.

Dioddefwyr a chyfiawnder adferol - Cawsom fod gwaith gyda dioddefwyr yn cael mesur o flaenoriaeth oddi wrth y GTI, a chynorthwywyd hyn gan y ffaith bod aelod o staff yn y ddau dîm GTI gyda'r prif gyfrifoldeb dros gydgysylltu â dioddefwyr. Cysylltwyd â chanran dda o ddioddefwyr a'u gwahodd i fynychu'r panel cyfeirio. Roedd y rhai y cyfwelwyd â hwy yn fodlon ar y broses ond roedd arnynt angen mwy o adborth ar ganlyniad mentrau cyfiawnder adferol. Roedd trefniadau cyfiawnder adferol yn eu lle ac roedd paneli cyfeirio'n cyfarfod i sefydlu ac adolygu contractau. Serch hynny, nid oedd y paneli bob amser yn cael eu cynnal o fewn yr amserlenni penodedig ac ni chynhaliwyd adolygiadau'n gyson. Roedd gan y panel fynediad i ystod o weithgareddau yn y gymuned a oedd yn cynnwys adfer drwy brosiectau amgylcheddol a chymunedol. Nid oedd rhai contractau'n cynnwys adfer, fodd bynnag ac, hyd yn oed pan oeddent, nid oedd rhai o'r gweithgareddau'n briodol.

Argymhellion

Dylai Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys sicrhau:

- bod y Bwrdd Rheoli yn cael ei gyfansoddi'n briodol, bod ganddo gylch gorchwyl clir, yn cael eu cefnogi'n effeithiol gan asiantaethau partner a bod aelodau newydd yn cael eu hanwytho'n briodol a'u paratoi am eu rôl
- bod gan y GTI rôl strategol glir o fewn y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Phlant a Phobl Ifanc ac yn gallu cynyddu ei allu gyda'u cefnogaeth hwy.

Dylai Cadeirydd y Bwrdd Rheoli sicrhau:

- bod cynllun gweithredu'n cael ei lunio i ymdrin ag argymhellion yr adroddiad arolygu hwn a'i anfon i'r arolygydd arweiniol cyn pen tri mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad
- bod gan y GTI staff llawn, a bod gan ei swyddfeydd le ac offer digonol ac addas, adnoddau priodol a lleoliad sy'n bodloni anghenion y gwasanaeth ledled ardal yr awdurdod
- bod y GTI ac asiantaethau partner yn hyrwyddo cyflwyno'r gwasanaeth yn effeithlon drwy adolygu a phrotocolau, polisïau a chytundebau lefel gwasanaeth o ran staffio a darparu adnoddau ar gyfer y GTI
- bod Bwrdd Rheoli'r GTI yn datblygu ei fframwaith rheoli perfformiad i fonitro ac adolygu gweithrediad y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid a llywio cyfeiriad strategol y GTI
- bod Rheolwr y GTI yn derbyn goruchwyliaeth ffurfiol a chynlluniedig.

Dylai Rheolwr y GTI sicrhau:

- bod yr holl staff, gan gynnwys staff gweinyddol, yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu'n rheolaidd o fewn fframwaith rheoli perfformiad
- bod ymyriadau sy'n digwydd gyda phlant a phobl ifanc yn cael eu llywio gan asesiad trylwyr, a gwblheir i safon foddhaol a'i adolygu'n foddhaol
- bod polisi risg y GTI yn cael ei weithredu'n llawn a bod asesiadau perygl o Niwed yn cael eu cynnal ar bob achos perthnasol, bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u cadarnhau gan reolwyr fel y bo'n briodol
- bod ansawdd adroddiadau cyn dedfrydu yn cael ei wella a'u bod i gyd yn seiliedig ar Asset; ymdrin â'r effaith ar y dioddefwr yn ôl yr angen, nodi unrhyw bryderon am ddiogelu; gwahaniaethu rhwng Perygl o Niwed a pherygl o aildroseddu a chynnwys dadansoddiad llawn o'r ymddygiad troseddol
- bod cadw cofnodion drwy system electronig Care Works a systemau ffeilio eraill yn cael ei gydlynu mor effeithlon â phosibl er mwyn

cynnig darlun llawn yn gyflym o bob achos unigol gan gynnwys y Rhaglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys

- mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol a chyrff hyfforddi, bod ansawdd cynlluniau addysg a hyfforddiant i bobl ifanc sy'n destun gorchmynion carchariad a hyfforddi'n cael ei wella
- bod ymyriadau'n cael eu gwerthuso'n ffurfiol er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd a'u defnyddio i ddatblygu ymarfer a pholisi.

Dylai sefydliadau partner sicrhau:

- bod cynrychiolaeth ar y Bwrdd Rheoli ar lefel swyddogion digon uchel i ganiatáu gwneud penderfyniadau effeithiol
- bod eu cyfraniadau ariannol uniongyrchol ac anuniongyrchol at waith y GTI yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol i fodloni cyfrifoldebau statudol y GTI
- bod eu cynlluniau strategol yn cysylltu'n effeithiol, yn nhermau gweithredol, â'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2006/2007.

Dylai'r Adran Gymunedol a Chartrefi sicrhau:

- bod protocol ymarfer yn cael ei ddatblygu sy'n hybu perthnasoedd gweithio amlwg ac agos â'r GTI er mwyn i blant a phobl ifanc gael eu diogelu
- bod ystod o lety addas ar gael fel dewis arall yn lle llety gwely a brecwast.

Dylai Heddlu Dyfed Powys sicrhau:

- bod y GTI yn cael ei hysbysu am ei benderfyniad i roi rhybudd terfynol cyn pen diwrnod ar ôl iddo benderfynu gwneud hynny
- bod mwy o gysondeb ac effeithiolrwydd yn cael eu sicrhau drwy un protocol neu gytundeb lefel gwasanaeth sylfaenol sy'n ymdrin â chyllido a secondiadau staff ar gyfer y pedwar TTI a leolir o fewn ei ardal.

Dylai'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau:

- bod plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl yn derbyn y lefel briodol o sylw ac ymyriad a bod y ddarpariaeth honno'n cael ei hategu gan brotocolau ysgrifenedig a chytûn
- bod gan y GTI lefel briodol o fewnbwn staff iechyd arbenigol i'w dîm i gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau a'i fod hefyd yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth arbenigol arall yn ôl yr angen.

Dylai'r Awdurdod Addysg Lleol sicrhau:

- bod ystod a nifer digonol o leoedd ar gael i fodloni anghenion unigol plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn eu hawl statudol i addysg

- bod gan y GTI lefel briodol o staff addysg arbenigol o fewn ei dîm i gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau a'i fod hefyd yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth arbenigol arall yn ôl yr angen.

Dylai Gyrfa Cymru sicrhau:

- ei fod yn bodloni ei gytundeb lefel gwasanaeth presennol â'r GTI ac yn gwella ei bresenoldeb mewn cyfarfodydd cyn-rhyddhau i bobl ifanc dros 16 mlwydd oed, ac yn sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael iddynt wrth eu rhyddhau i'r gymuned
- bod pobl ifanc dros 16 mlwydd oed sy'n troseddu yn cael eu holrhain a'u cynnwys mewn cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth.

Dylai Cyngor Sir Powys, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, sicrhau:

- bod ystod ddigonol o lety addas ar gael, i blant a phobl ifanc sydd ar fechnïaeth neu sy'n ddigartref i bob pwrpas a/neu sydd ag anghenion cymorth arbennig.

1. RHEOLI

1.1 Arweinyddiaeth

Dyfarniad allweddol:

- *Mae'r Bwrdd Rheoli yn darparu arolygiaeth a chyfeiriad strategol, ac yn cydlynu darpariaeth gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid gan y TTI a sefydliadau partner.*

Cafodd GTI Powys ei sefydlu ar 1 Ebrill 2005, ar ôl bod yn rhan o TTI Canolbarth Cymru o'r blaen a oedd hefyd wedi cynnwys Ceredigion. Roedd wedi'i leoli o fewn Adran Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Powys ac yn gysylltiedig â Chynllunio Gwasanaethau Plant a'r PDC a'r PPPI.

Penododd GTI Powys reolwr GTI yn Awst 2005, a chynhaliodd ei gyfarfod cyntaf o Grŵp Llywio Troseddau Ieuenctid Powys ym mis Hydref 2005 dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys. Amlinellodd rheolwr y GTI, yn ei hadroddiad i'r cyfarfod, yr heriau dirfawr a brys a wynebai'r GTI, ac eglurodd rheolwr rhanbarthol Cymru y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gyfrifoldebau'r grŵp llywio, fel y'u hamlinellwyd yn nogfen y BCI, *Sustaining the Success*.

Yn dilyn y cyfarfod hwn, comisiynodd rheolwr y GTI, gyda chefnogaeth y grŵp llywio, adolygiad o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid ym Mhowys a adroddodd yn Ebrill 2006. Ymhlith cyfres o argymhellion, awgrymodd yr adroddiad fod y grŵp llywio yn dod yn Fwrdd Rheoli, bod y TTI yn newid ei enw i Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Powys gan newid enw rheolwr y TTI yn yr un modd i reolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Hefyd cynigiodd adolygiad o'r gynrychiolaeth ar y Bwrdd Rheoli. Cafodd yr argymhellion hyn eu derbyn, a chyfarfu Bwrdd Rheoli Partneriaeth Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Powys am y tro cyntaf yn Ebrill 2006.

Cryfderau:

- Cafodd y Bwrdd Rheoli ei gadeirio gan Brif Weithredwr Cyngor Sir Powys.
- Roedd y Bwrdd Rheoli wedi cydnabod bod angen newidiadau ac o ganlyniad, roedd diwrnod datblygu wedi'i gynnal gyda staff y GTI yn Ionawr 2006 a diwrnod cynllunio gweithredu strategol y Bwrdd Rheoli ym Mawrth 2006.
- Roedd camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod pob partner statudol, ynghyd ag asiantaethau allweddol eraill, yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd Rheoli gan bobl ar y lefel uchel briodol.

- Roedd dau aelod o Gyngor Sir Powys gyda chyfrifoldebau portffolio dros blant a phobl ifanc a diogelwch cymunedol yn aelodau o'r Bwrdd Rheoli.
- Cafodd aelodau o'r Bwrdd Rheoli eu cynrychioli ar y PDC, PPPI a grwpiau perthnasol eraill gyda'r potensial i wella gwaith y GTI.

Meysydd i'w gwella:

- Er bod yr holl bartneriaid statudol bellach yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd Rheoli, roedd gennym bryderon difrifol am allu'r Bwrdd i ddarparu trosolwg a chyfeiriad strategol. Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd yn amrywio'n sylweddol. Adroddodd aelodau nad oeddent wedi derbyn unrhyw hyfforddiant cyflwyno ffurfiol ac o ganlyniad nid oedd yn ymddangos bod ganddynt wybodaeth ddigonol am eu cyfrifoldebau neu waith y GTI i gyflawni eu rôl ar y Bwrdd. Nid oedd poblogaeth aelodaeth y Bwrdd yn adlewyrchu amrywiaeth yr awdurdod.
- Roedd angen gwella statws a dealltwriaeth o rôl a swyddogaeth y GTI o fewn y Bwrdd Rheoli, yr awdurdod lleol, ar lefel swyddogion ac aelodau, ac ymhlith asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'i waith. Roedd hyn yn hanfodol i ddatblygiad gweledigaeth strategol gytûn a ategir gan gynllun gweithredu â'r adnoddau digonol, ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd. Yn y cyd-destun hwn, roedd angen i'r asiantaethau adolygu a rhannu eu blaenoriaethau a'u targedau unigol, fel rhan o'r broses o gael dealltwriaeth well o waith y GTI, a chyfrannu'n fwy effeithiol ato.
- Roed angen mwy o eglurdeb o'r cysylltiadau strategol rhwng Bwrdd Rheoli'r GTI a'r CSP, PPPI o ran statws, atebolrwydd, mynediad i adnoddau newydd a datblygiad gwasanaethau.
- Roedd angen i'r Bwrdd Rheoli ddatblygu ei allu a'i ddefnydd o wybodaeth rheoli perfformiad er mwyn caniatáu iddo fodloni ei gyfrifoldebau statudol a llywio cyfeiriad strategol ac anghenion gweithredol y GTI.
- Nid oedd strwythur staffio'r GTI a'i ofod swyddfa yn ddigonol i ganiatáu i'r gwasanaeth fodloni ei ymrwymiadau o ran ei faich gwaith, a darparu cefnogaeth i'r staff.

Arfer da

Cynhaliodd y Bwrdd Rheoli ddiwrnod cynllunio gweithredu strategol ym mis Mawrth 2006 a gafodd ei hwyluso gan ymgynghorwyr annibynnol. Cyn y diwrnod, roedd y Bwrdd Rheoli wedi cymryd rhan mewn trafodaeth â rheolwr rhanbarthol y BCI (Cymru), BCI. Edrychodd y diwrnod datblygu ar gyflawniadau a meysydd i'w datblygu, a daeth i ben gydag argymhellion ar gyfer gweithredu.

1.2 Partneriaeth ac adnoddau

Dyfarniad allweddol:

- *Mae sefydliadau partner a'r TTI yn gweithio gyda'i gilydd i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu.*

Yn 2005, arolygwyd Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Powys gan AGCC a SAC. Gwnaethant ymgymryd â chydadolygiad o wasanaethau cymdeithasol yn yr awdurdod a daethant i'r casgliad bod gwasanaethau'n anghyson a bod y rhagolygon ar gyfer gwella yn ansicr. O ganlyniad, yn ystod y chwe mis cyn yr arolygiad GTI, datblygodd y cyngor gynllun gweithredu i ymdrin â chanfyddiadau'r adolygiad gan roi'r flaenoriaeth uchaf i iechyd, gofal cymdeithasol a lles.

Nid oedd y cydadolygiad wedi arolygu'r GTI yn ffurfiol am ei fod yn gwbl ymwybodol o'r arolygiad arfaethedig hwn ac, o ganlyniad, nid oedd yn rhan o'r cynllun gweithredu. Yn anffodus, golygai'r oedi rhwng y cydadolygiad a'r arolygiad GTI, er bod cynnydd yn cael ei gyflawni o ran gwasanaethau plant yn gyffredinol, nad oedd yn cynnwys y GTI. Roedd rheolwr y GTI yn ymwybodol o'r anghysondeb hwn ond ni allai gyflawni gwelliant digonol naill ai'n fewnol trwy'r gwasanaethau plant nac yn allanol drwy'r Bwrdd Rheoli.

Cryfderau:

- Mae'r GTI wedi parhau i weithredu trwy drefniadau sydd, gan fwyaf, yn anffurfiol a thrwy ymrwymiad staff.
- Roedd trefniadau secondio ar waith ar gyfer yr heddlu a gwasanaethau prawf.
- Llofnodwyd CLG â Her Powys i gynnig cefnogaeth gwirfoddolwyr i weithio gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu a'r rheiny mewn perygl o droseddu.
- Cynhaliwyd archwiliad o anghenion hyfforddi ac roedd staff yn cael eu hannog i fynychu cyrsiau hyfforddi BCI a chyrsiau hyfforddi mewn swydd amrywiol.
- Roedd gan ddau faes allweddol, sef y PDC a'r PPPI, gysylltiadau da â'r GTI ac roeddent yn cael eu cynrychioli ar ei Fwrdd Rheoli. Roedd staff GTI yn ymwneud ag is-grwpiau amrywiol, gan gynnwys y Panel Cynhwysiad Cymdeithasol, y Grŵp Gweithredu ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a'r tîm gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau ac, o ystyried y cyfyngiadau o ran adnoddau, roeddent yn gweithio mor effeithiol â phosibl ar lefel weithredol ag asiantaethau yn y sectorau statudol ac annibynnol.
- Roedd rhai cysylltiadau da rhwng y GTI, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Coleg Powys a Her Powys, a arweiniai at ystod o fentrau unigol. Roedd y rhain yn cynnwys cynlluniau cyfiawnder adferol a chymorth mentora i bobl ifanc a ganolbwyntiai ar gyflogaeth, addysg,

tai, iechyd a rheolaeth ariannol, ynghyd â gweithgareddau ymgyfeillio a chymdeithasol cyffredinol ar sail anghenion yr unigolyn.

- Roedd yr heddwas a secondiwyd yn gweithio'n agos â'r cydlynydd ymddygiad gwrthgymdeithasol ac roedd wedi helpu i hwyluso seminarau i godi ymwybyddiaeth am rôl y GTIau o ran brwydro yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ogystal, yn ystod gwyliau ysgol yr haf, arweiniodd yr heddwas sioeau teithiol GTI ledled y wlad i godi ymwybyddiaeth o waith y GTI ac i atal pobl ifanc rhag troseddu.
- Mewn partneriaeth ag ystod o asiantaethau, gan gynnwys pobl ifanc o Goleg Powys, roedd yr heddwas a secondiwyd hefyd wedi trefnu ymgyrch wrth-fwlio lwyddiannus iawn a ddilynwyd gan gynhadledd undydd a gweithdy i gynrychiolwyr.

Meysydd i'w gwella:

- Roeddem yn bryderus am y diffyg eglurder o ran y trefniadau ar gyfer cyfathrebu rhwng y Bwrdd Rheoli a'i bartneriaid. Er bod y GTI hefyd yn cael ei gynrychioli ar nifer o grwpiau a mentrau perthnasol eraill, ymddangosai fod y cysylltiadau hyn yn bodoli mewn unigedd cymharol ac nid oedd unrhyw linellau cyfathrebu eglur â'r Bwrdd Rheoli ar lefel strategol.
- Roedd gan y GTI nifer cyfyngedig o brotocolau a CLGau â'i asiantaethau partner, yr oedd angen adolygu a diweddaru'r rhan fwyaf ohonynt. Roedd hwn yn wendid sylweddol. Roedd angen protocolau eglur ag asiantaethau partner i sicrhau bod y GTI wedi'i staffio'n llawn ac yn gallu cael mynediad at wasanaethau allweddol.
- Roedd cynrychiolaeth iechyd ac addysg yn y GTI wedi bod yn wan iawn ac roedd angen ei gwella fel mater o frys. Yn benodol, roedd yn rhaid i'r BILl ddangos i'r BCI ei fod yn dilyn yr arweiniad o ran ariannu. Roedd y cyllid iechyd presennol o 2.92% yn benodol i'r GTI ymhell islaw'r ffigur arweiniad o 6% a argymhellwyd, ac roedd angen ymdrin â hyn.
- Roedd nifer o wasanaethau iechyd generig ar gael i'r GTI. Yn ogystal, fel rhan o'r cynllun adfer, roedd y BILl yn y broses o ddyrannu gweithwyr gofal iechyd meddwl sylfaenol presennol i'r GTI.
- Nid oedd trefniadau ariannu'r GTI wedi cael eu hadolygu'n ffurfiol ers ei sefydlu. Ymddengys iddo gael ei ariannu ar sail hanesyddol tan yr arolygiad hwn ac nid oedd ganddo ddigon o adnoddau i fodloni'r gofynion a roddwyd arno.

Arfer da

Roedd y GTI mewn partneriaeth â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, Heddlu Dyfed Powys, Coleg Powys, PDC Powys a Childline, wedi trefnu ymgyrch wrth-fwlio lwyddiannus wedi'i dilyn gan ddiwrnod cynrychiolwyr a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2006. Roedd y bartneriaeth wedi datblygu drama gyda myfyrwyr a fynychai Coleg Powys o'r enw *Beat 'Em*. Roedd y ddrama wedi mynd ar daith lwyddiannus o amgylch 13 o ysgolion uwchradd ym Mhowys dros gyfnod o dair wythnos, gan roi cyfleoedd i hyrwyddo dealltwriaeth well o fwlio trwy drafodaethau, ymarferion a rhoi cyngor ysgrifenedig i bobl ifanc ynghylch ymdrin â'r broblem. Aeth y diwrnod cynrychiolwyr, a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2006, i'r un cyfeiriad gyda'r gynulleidfa'n cymryd rhan mewn trafodaeth ynglŷn â'r ddrama a thystiolaeth yn cael ei chynnig gan siaradwyr â phrofiad uniongyrchol o fwlio.

Roedd hwn yn brosiect llwyddiannus iawn a ddangosai'n eglur fanteision gweithio mewn partneriaeth mewn ardal wledig denau ei phoblogaeth. Gwerthuswyd y prosiect a'i weld yn gadarnhaol gan yr holl gyfranogwyr, gan gynnwys athrawon a'u disgyblion.

1.3 Goruchwyliaeth, datblygiad a hyfforddiant staff

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc eu gwella gan staff effeithiol.*

Pennaeth dros dro Gwasanaethau Plant Gweithredol oedd rheolwr llinell y GTI. Fodd bynnag, cyflogwyd gweithiwr parhaol a oedd i gychwyn ym mis Gorffennaf 2006. Bu'r trefniant dros dro ar waith ers Rhagfyr 2005, a darparai oruchwyliaeth fisol sylfaenol i reolwr y GTI ac aelodaeth o'r tîm rheoli gwasanaethau plant. Fodd bynnag, yn ymarferol, ymddangosai fod rheolwr y GTI, i raddau helaeth, yn gweithio ar ei phen ei hun ac roedd ganddi'r dasg amhosibl o roi newid ar waith mewn GTI a esgeuluswyd ers sawl blwyddyn. Yn ogystal, roedd disgwyliadau uchel iawn o ran rheolaeth weithredol y rheolwr GTI a'i chyfraniad at ei reolaeth strategol drwy'r Bwrdd Rheoli.

Canfuom reolwr GTI a oedd yn alluog ond a oedd wedi'i gorymestyn ac aelodau staff a oedd wedi dod yn rhwystredig ac yn ddig iawn ynglŷn â'r diffyg cefnogaeth dros y blynyddoedd. Er hynny, roeddent yn gefnogol iawn i'r rheolwr, gan ddatgan ei bod yn ymrwymedig ac yn dechrau gwneud peth cynnydd. Roeddent yn unfrydol yn gweld yr arolygiad hwn yn waelodlin ac yn gatalydd ar gyfer newid. Roedd ystod o staff eraill o asiantaethau allanol, y cyfwelwyd â nhw yn ystod yr arolygiad, yn rhannu ac yn atgyfnerthu'r farn hon.

Roedd y GTI yn cynnwys dau dîm, un yng ngogledd y sir a'r llall yn y de.

Cryfderau:

- Gwelwyd bod goruchwylio staff yn flaenoriaeth ac yn bwysig i effeithiolrwydd y GTI. Yn dilyn ei phenodi ym mis Awst 2005, cychwynnodd y rheolwr GTI oruchwylio rhai aelodau staff, gan gynnwys uwch ymarferwyr. Yn absenoldeb rheolwyr tîm, nid oedd yn bosibl iddi oruchwylio'r holl staff, ond datryswyd y mater hwn pan ysgwyddodd dau o'r uwch ymarferwyr, a leolwyd yn y ddwy swyddfa weithredol, dros gyfrifoldeb dros oruchwylio staff ym mis Ionawr 2006. Roedd trefniadau goruchwylio ychwanegol ar waith gyda rhai asiantaethau partner. Mynegodd y mwyafrif o'r staff y cyfwelwyd â hwy foddhad ar yr oruchwyliaeth ffurfiol roeddent wedi'i derbyn a hefyd â'r gefnogaeth anffurfiol a dderbyniwyd oddi wrth gydweithwyr yn y GTI.
- Roedd Bwrdd Rheoli'r GTI wedi cymeradwyo penodi dau reolwr tîm i gynyddu'r gallu ar gyfer gwella ansawdd goruchwylio staff.
- Anogwyd staff i fynychu digwyddiadau hyfforddi a oedd yn addas i'w rolau penodol yn y GTI. Roedd pedwar aelod tîm wedi cwblhau'r Dystysgrif Ymarfer Effeithiol yn llwyddiannus. Roedd gan yr heddwas Ddiploma mewn Gwaith Cymdeithasol ac roedd wedi cwblhau cwrs pum niwrnod ar gynadledda adferol a drefnwyd gan Heddlu Dyffryn Tafwys.
- Cyn penodi rheolwr y GTI, ni fu'r timau GTI yn cyfarfod yn rheolaidd. Cywirwyd hyn erbyn hyn, ac roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn fisol o leiaf. Roedd cyfarfodydd yn cael eu mynychu'n dda ac yn cael eu defnyddio'n briodol i gyfathrebu a rhannu gwybodaeth, ac i gyflwyno newidiadau o ganlyniad i fentrau cenedlaethol neu leol.
- Roedd staff hefyd yn cael eu cynnwys wrth hyfforddi gwirfoddolwyr i gyfranogi mewn paneli cymunedol ac i weithredu'n Oedolion Priodol.
- Roedd Rheolwyr y GTI yn dilyn polisïau, gweithdrefnau ac arweiniad corfforaethol yr awdurdod lleol ar gyfer materion disgyblu, gallu, cwyno ac arfarnu.

Meysydd i'w gwella:

- Roedd angen egluro'r rheolaeth linell, a rôl a chyfrifoldebau rheolwr y GTI.
- Nid oedd gan y GTI ddigon o allu staffio i fodloni ei gyfrifoldebau. Roedd Cynllun Adfer Cychwynnol y GTI ar gyfer Mai 2006 wedi nodi'r diffygion yn eglur ac roedd angen cymryd camau i sicrhau gweithredu'r cynllun yn llawn.
- Roedd lleiafrif bach o'r staff yn anfodlon ar lefel yr oruchwyliaeth a roddwyd, ac ymddangosai eu bod wedi cael eu niweidio gan y diffyg cefnogaeth a chydnabyddiaeth i'w gwaith dros y blynyddoedd. Dangosodd archwilio'r cofnodion fod bylchau a bod angen ymagwedd fwy cyson. Fodd bynnag, roeddem yn fodlon eu bod yn ymdrin â hyn erbyn hyn.

- Oherwydd y prinder staff, absenoldeb darpariaeth addysg arbenigol, a mewnbwn iechyd annigonol, nid oedd staff y GTI yn gallu sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r holl blant a phobl ifanc yr oedd arnynt angen eu gwasanaethau.

ASESIAD CYFFREDINOL O REOLI

Bernir bod yr adran hon yn annigonol.

2. GWAITH YN Y LLYSOEDD

Dyfarniad allweddol:

- *Ceir perthynas waith dda rhwng y TTI a'r llys lleol.*

Roedd dau lys ieuenctid ym Mhowys, a leolwyd yn Aberhonddu yn ne'r sir ac yn y Trallwng yng ngogledd y sir. Roeddent yn cynnwys ardal ddaearyddol eang ac nid oedd modd cael mynediad atynt yn hawdd oherwydd y pellteroedd o dan sylw ac argaeledd cludiant cyhoeddus. Roedd plant a phobl ifanc o ganol y sir, Llandrindod a'r ardal o'i amgylch, yn wynebu problemau ychwanegol. Roeddent yn cael eu goruchwylio gan staff o Swyddfa'r Trallwng ond, fel arfer, roeddent yn mynychu llys ieuenctid Aberhonddu lle nad oeddent fel arfer yn adnabyddus i staff y GTI. Roedd hyn yn cael ei adolygu adeg yr arolygiad, ac roedd yn debygol o newid.

Nid oedd gan y GTI dîm dyletswydd llys arbenigol. Gwnaed gwaith llys ieuenctid gan yr uwch ymarferydd/gweithiwr cymdeithasol yn y ddau dîm, gyda chefnogaeth cynorthwywyr gwaith cymdeithasol a oedd hefyd yn gweithio dros dro mewn achosion o absenoldeb oherwydd gwyliau neu salwch.

Cryfderau:

- Ystyriwyd bod gwasanaethu'r llys ieuenctid yn flaenoriaeth uchel i'r ddau dîm GTI, fel yr adlewyrchwyd yn yr atebion cadarnhaol a gafwyd am yr agwedd hon ar eu gwaith yn ystod yr arolygiad. Roedd gan y GTI berthynas gadarnhaol â holl gynghorwyr cyfreithiol y llysoedd, Cyfreithwyr Erlyn y Goron ac eraill a oedd yn ymwneud â phrosesau'r llys.
- Darparai'r GTI staff profiadol i sicrhau cynrychiolaeth ddigonol mewn llysoedd a drefnwyd yn ei ardal.
- Roedd staff y GTI yn mynychu ac yn cyfrannu at Grwpiau Defnyddwyr y Llysoedd Ieuenctid a gynhaliwyd yn Aberhonddu a'r Trallwng bob chwe mis. Archwiliwyd sampl o gofnodion y cyfarfodydd hyn a chadarnhau y gwahoddwyd ystod eang o ddefnyddwyr y llysoedd i fynychu, gan gynnwys y GTI, ac y trafodwyd ystod o faterion perthnasol. Roedd eitemau agenda ar wahân hefyd a ymdriniai â gwaith y GTI.
- Roedd swyddogion llys ar ddyletswydd yn mynychu cyfarfodydd ynadon y llysoedd ieuenctid ar gyfer trafodaethau cyffredinol ar waith y GTI ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r ynadon am batrymau aildroseddu a thueddiadau dedfrydu.
- Cyfrannai'r GTI mewn diwrnodau i hyrwyddo'r llysoedd.

Meysydd i'w gwella:

- Nid oedd gan y GTI CLG ar waith â Phrif Weithredwr yr Ynadon a rheolwr Llys y Goron lleol, a gynhwysai drefniadau ar gyfer gwasanaethau llys yn yr ardal honno. Gwelwyd CLG drafft yn ystod yr arolygiad, ond nid oedd wedi cael ei gadarnhau'n ffurfiol am ei fod yn cynnwys yr holl lysoedd ieuenctid yn Nyfed Powys ac roedd yn rhaid trafod nifer o brosesau gwahanol cyn ei gwblhau. Nid oedd y CLG drafft wedi'i ddyddio ac nid oedd yn cynnwys enwau a dynodiad llofnodwyr.
- Yn absenoldeb CLG a gytunwyd, nid oedd unrhyw drefniadau ffurfiol ar waith o ran gweithwyr llys dros dro ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau banc, nac ar gyfer gofynion sylfaenol fel rhoi gwybod am restri llys yn gynnar, neu gyfleusterau swyddfa ar gyfer cyfweld a gynhwysai ffôn, ffacs a chyfrifiadur. Dywedwyd bod llysoedd ar benwythnosau a gwyliau banc yn anghyffredin ac eithrio ar adegau penodol, fel Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a Gŵyl Jas Aberhonddu. Ar y fath adegau, mynychai gweithiwr cymdeithasol ar ddyletswydd wrth gefn ac, fel arfer, byddai'r achos yn cael ei fechnïo tan y llys ieuenctid nesaf. Yn ein barn ni, nid oedd y trefniadau hyn yn ddigonol, gan nad oedd gan y swyddog perthnasol y wybodaeth arbenigol ofynnol na mynediad at system wybodaeth y GTI.
- Nid oedd darpariaeth y GTI i Lys y Goron yn dod o dan unrhyw gytundeb. Nid oedd protocol yn bodoli ar gyfer Llys y Goron ac ni fynychai'r GTI Grŵp Defnyddwyr Llys y Goron.
- Adeg yr arolygiad, dim ond nifer cyfyngedig o daflenni gwybodaeth ynglŷn â gorchmynion llys oedd ar gael. Roedd angen atgynhyrchu'r rhain i gynnwys yr holl orchmynion yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Roedd cytundeb anffurfiol i swyddog llys ar ddyletswydd ardal y gwasanaeth prawf roi gwybod i'r GTI pan oedd pobl ifanc i ymddangos gerbron y llys ynadon. Nid oedd y trefniant hwn wedi'i gynnwys gan brotocol neu CLG rhwng y GTI, ardal y gwasanaeth prawf a'r llys oedolion.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff arfer effeithiol gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu ei hyrwyddo gan waith y TTI o fewn y llysoedd.*

Cryfderau:

- Roedd y swyddogion llys ar ddyletswydd yn brofiadol ac yn gwbl gyfarwydd â'r rôl a ddisgwyliwyd ohonynt. Roeddent yn gweld pobl ifanc a'u teuluoedd cyn y gwrandawiad ac yn ceisio eu gwneud iddynt deimlo mor gyfforddus â phosibl â phroses y llys trwy drafod a darparu gwybodaeth briodol.
- Roedd swyddogion llys ar ddyletswydd yn cyfweld â phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr ar unwaith wedi'r ddedfryd ac yn rhoi

gwybodaeth iddynt am y ddedfryd a roddwyd gan y llys. Rhoddwyd dyddiad eu hapwyntiad cyntaf iddynt hefyd.

- Cynhaliwyd cyfweliadau ôl-ddedfrydu yn y gell yn rheolaidd â phobl ifanc a ddedfrydwyd neu a remandiwyd i'r ddalfa.

Arfer da

Rhoddwyd gwybodaeth hanfodol i gyfleusterau gwarchodol. Roedd y pecyn a anfonwyd i'r sefydliad a oedd yn derbyn y person ifanc yn cynnwys Asset, yr adroddiad ôl-llys, hanes dedfrydu, ACD, asesiad iechyd, gwybodaeth o ran a yw'r person yn ddiamddiffyn ac asesiad PN, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Os aseswyd risgiau fel bod yn uchel, byddai'r swyddogion llys ar ddyletswydd yn ffonio'r sefydliad ar unwaith ac yn anfon y wybodaeth berthnasol drwy ffacs. Yn ogystal, anfonwyd ffurflenni archebu a dogfennau, gan gynnwys rhybuddion a oedd y person yn ddiamddiffyn, drwy bost electronig diogel i ganolfan archebu cyfleusterau y BCI.

Meysydd i'w gwella:

- Ni roddwyd rhestr o'r achosion i'w gwrando ym mhob llys i'r GTI fel rhan o'r drefn cyn diwrnod y gwrandawiad. Byddai'r wybodaeth hon yn gymorth mawr wrth helpu rheolwyr y GTI i bennu'r gofynion staff am y llys ar unrhyw ddiwrnod penodol.
- Roedd angen i'r GTI gryfhau argaeledd trefniadau apwyntiad cyntaf ar gyfer yr holl orchmynion llys ar ôl dedfrydu. Byddai darparu ystafell gyfweld yn y llys yn cynorthwyo'r broses hon ymhellach.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff plant a phobl ifanc eu diogelu a chaiff y tebygolrwydd y byddant yn troseddu eto ei leihau trwy ddarparu gwasanaethau priodol, gan gynnwys rhaglenni goruchwylio mechniaeth a chefnogi.*

Cryfderau:

- Roedd swyddogion llys ar ddyletswydd y GTI yn gwasanaethu'r llysoedd ieuenctid a gynhaliwyd yn rheolaidd a hefyd llysoedd argyfwng/arbennig a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos waith arferol i sicrhau y gellid asesu plant a phobl ifanc yn briodol a darparu gwybodaeth i'r llys ei hystyried.
- Roedd y GTI yn darparu gweithwyr hyfforddedig Her Powys i ymddwyn yn Oedolion Priodol. Roeddent yn gweithio'n agos â'r heddlu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi yng nghystodaeth yr heddlu ac yn cael eu dychwelyd i'w cartrefi'n ddiogel.
- Roedd gan y GTI berthynas gadarnhaol â'r heddlu lleol a chyfradd isel o aildroseddu ar fechnïaeth.
- Llenwyd ACDau cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau'r amser ar fechnïaeth. Gweithredai GTI Powys yn unol â'r safonau a gynhwysir

ym mhrotocol ACD Dyfed Powys a lofnodwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron, yr heddlu, ardal y gwasanaeth prawf a'r pedwar GTI yn yr ardal.

Meysydd i'w gwella:

- Nid oedd unrhyw drefniadau ffurfiol ar waith i nodi a rhoi gwybod i'r GTI am yr holl blant a phobl ifanc a oedd mewn perygl o gael eu remandio'n ddiogel neu i'r ddalfa. Am ei fod yn awdurdod cymharol fach, dibynnai'r GTI ar brosesau anffurfiol a chysylltiadau personol rhwng staff a oedd yn cynrychioli eu priod asiantaethau.
- Nid oedd ystod o wasanaethau goruchwylio a chefnogi ar gael i'r GTI i ymdrin â gwrthwynebiad i fechnïaeth. Er hynny, roedd yn cydnabod y galw am gynllun mechnïaeth RhGGDd ac am ddarpariaeth fwy effeithiol i asesu a thrin camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl. Felly, roedd angen defnyddio cefnogaeth mechnïaeth yn fwy effeithiol pan oedd hynny'n briodol.
- Roedd angen i'r GTI ddatblygu CLG ag Adrannau Gwasanaethau Plant a Thai yr awdurdod i sicrhau ystod well o lety addas i blant a phobl ifanc ar fechnïaeth a'r rheiny a remandiwyd i ofal yr awdurdod lleol.

Dyfarniad allweddol:

- *Cynorthwyir llysoedd wrth wneud penderfyniadau cytbwys trwy ddarparu adroddiadau o ansawdd da gan y TTI.*

Cryfderau:

- Roedd yr holl staff a oedd yn gyfrifol am ysgrifennu ACDau yn defnyddio'r arweiniad ACD NACRO. Mewn 95% o'r achosion a arolygwyd, cwblhawyd adroddiadau yn ôl amserlenni'r safonau cenedlaethol, a chyfwelwyd â'r plentyn neu'r person ifanc o leiaf unwaith at ddiben penodol yr adroddiad yn holl sampl yr ACD. Cyfwelwyd â rhieni/gofalwyr ar gyfer yr adroddiad mewn 72% o'r sampl.
- Didolwyd adroddiadau yn anffurfiol gan yr uwch ymarferwyr a'u cydweithwyr i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal. Gwnaed ymdrechion i sicrhau bod ACDau yn briodol, yn ffeithiol gywir ac yn ddiduedd, a'u bod hefyd yn rhydd o jargon ac iaith wahaniaethol. Canfuwyd bod yr olaf yn ddigonol mewn 84% o'r sampl ACD a chwiliwyd. Yn ogystal, ystyriwyd bod yr holl adroddiadau a chwiliwyd yn ffeithiol gywir.

Meysydd i'w gwella:

- Ni ystyriwyd bod yr un o'r adroddiadau a archwiliwyd yn ystod yr arolygiad o ansawdd derbyniol, ac roedd llawer ymhell islaw'r safonau cenedlaethol perthnasol mewn meysydd penodol. Canfuom nad oedd ACDau wedi'u seilio ar Asset mewn 83% o'r sampl; roedd gwybodaeth a gafwyd o ffynonellau perthnasol yn annigonol mewn

42%; ac nid oedd yn cydymffurfio â fformat y safon genedlaethol mewn 63%. Canfuom hefyd nad oedd yr ACDau wedi'u hysgrifennu mewn iaith ddealladwy i'r plentyn neu'r person ifanc ac, felly, nid oeddent yn ddigonol mewn 47% o'r sampl a arolygwyd.

- Canfuom nad oedd ACDau yn cynnwys dadansoddiad digonol o'r drosedd yn hytrach na disgrifiad mewn 84% o achosion. Mewn 95% o adroddiadau, nid oedd yr adroddiadau'n asesu'n ddigonol lefel aeddfedrwydd y person ifanc i ddeall difrifoldeb y drosedd na'u gallu i wasanaethu'r ddedfryd arfaethedig mewn 83%.
- Nid ymdriniwyd â'r effaith ar y dioddefwr yn ddigonol mewn 76% o'r ACDau a archwiliwyd, ac nid oedd digon o wybodaeth berthnasol mewn 74%.
- Roedd pryderon difrifol hefyd o ran diogelu'r person ifanc a bod yn agored i PN gan ei hun neu gan eraill. Nid ymdriniwyd â materion diogelu a nodwyd yn Asset yn ddigonol mewn 95% o'r sampl. Nid oedd y sylw i blant diamddiffyn yn ddigonol mewn 84% ac roedd y sylw i'r perygl o aildroseddu yn wael neu'n annigonol mewn 90% o'r adroddiadau. Nid oedd gwahaniaethu rhwng perygl aildroseddu a PN yn ddigonol mewn 74% o'r sampl.
- Roedd amrywiaeth yn wael neu'n annigonol mewn 95% o'r ACDau a arolygwyd.

ASESIAD CYFFREDINOL O WAITH YN Y LLYSOEDD

Bernir bod yr adran hon yn annigonol.

3. GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YN Y GYMUNED

3.1 Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff plant a phobl ifanc eu hatal rhag troseddu.*

Oherwydd diffygion o ran adnoddau, roedd y GTI wedi canolbwyntio ei waith ar blant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu, gan roi llai o flaenoriaeth ar atal troseddu. Er hynny, gweithredai staff ymagwedd ar sail risg at waith ataliol â phlant a phobl ifanc unigol, ac roedd hyn yn y broses o gael ei ffurfioli. Yn ymarferol, cynhaliwyd asesiad risg a dim ond y rheiny a fodlonai feini prawf gosodedig a dderbyniai wasanaethau. Yn ogystal, mynychai staff gyfarfodydd PPO, MAPPA ac adolygiadau Plant sy'n derbyn Gofal.

Roedd Cyngor Sir Powys wedi cymryd camau i sicrhau bod atal ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol yn gyfrifoldeb amlasiantaeth yr ymdriniwyd ag ef drwy'r PDC a'r PPPI yn ogystal â'r GTI. Felly, roedd penodi deiliaid portffolio yr awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc, a diogelwch cymunedol, i'r Bwrdd Rheoli yn arwyddocaol am ei fod yn cydnabod pwysigrwydd a'r potensial ar gyfer cydweithredu yn y meysydd hyn. Yn ogystal, roedd rheolwr a staff y TTI yn ymwneud yn weithredol yng ngwaith y PDC a'r PPPI ar lefelau priodol. Fodd bynnag, oherwydd y diffyg adnoddau yn y GTI a materion o ran cydlynu rhwng y partneriaethau a'r GTI, nid oedd y potensial hwn yn cael ei gyflawni adeg yr arolygiad.

Yn y cyd-destun hwn, nodwyd hefyd bod y BILl yn cyfrannu at wasanaethau generig a oedd ar gael i ystod o bobl ifanc ym Mhowys. Roedd y rhain yn cynnwys Cynllun Magu Plant Barnardo's, Seicolegydd Clinigol Webster Stratton a Gwasanaeth Cynghori Pobl Ifanc Walkways, yr oedd pob un ohonynt â'r nod o atal aildroseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd rheolwr y GTI hefyd yn aelod o'r grŵp amlasiantaeth a oedd yn cydlynu ac yn datblygu'r ymagwedd magu plant gadarnhaol ym Mhowys. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r PDC a PPPI, nid oedd potensial y gwasanaethau hyn yn cael ei wireddu adeg yr arolygiad.

Cryfderau:

- Nodwyd plant a phobl ifanc yr ystyriwyd eu bod yn debygol o droseddu, ynghyd â lefel y perygl roeddent yn ei beri, o gyfeiriadau'r heddlu i'r GTI. Pan nodwyd perygl, gweithredai'r GTI system o geryddon gyda chymorth yr heddlu, a defnyddiwyd system *mechnïo yn ôl* i gynnig asesiad yn sail ar gyfer ymyrraeth bosibl.

- Cyfeiriwyd achosion eraill yr ystyriwyd eu bod mewn perygl o droseddu gan dimau gofal plant yr awdurdod lleol ac roedd modd cael mynediad at wasanaethau os barnwyd eu bod yn addas.
- O dan system gyfeirio'r heddlu, cynhaliwyd cyfarfodydd misol i drafod cyfeiriadau cyn-llys ac i fonitro canlyniadau'r gwaith a wnaed. Ymdriniodd y GTI ag atal ar sail unigol, a hynny ar sail asesiad o anghenion yr achos. Gallai'r plant a'r bobl ifanc o dan sylw fod yn destun MAPPA a'r protocol, gweithdrefn ac arweiniad ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd.
- Roedd heddwas y tîm GTI wedi datblygu ystod o fentrau ataliol, fel y *Sioeau Teithiol Haf*. Yn bennaf, roedd y rhain yn ganlyniad i fenter personol ac roeddent yn cynnwys asiantaethau eraill yn ôl yr hyn a oedd yn briodol.
- Yn ystod 2005 a 2006, gyda chefnogaeth gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, comisiynodd a pherfformiodd grŵp amlasiantaeth a arweiniwyd gan y GTI dwy ddrama a anelwyd at bobl ifanc. Amlygodd y ddrama gyntaf, *Crime of Your Life,* sut mae pobl ifanc yn gallu cael eu dal yn disgyn i bwll dwfn troseddu. Archwiliodd yr ail ddrama, *Beat' Em*, fater nodi ac ymdrin â bwlio. Perfformiwyd y ddwy ddrama'n helaeth mewn ysgolion ledled Powys. Roedd mentrau hyrwyddo eraill yn cynnwys digwyddiadau cyfiawnder adferol mewn ysgolion ac roedd cyflwyniadau cyhoeddus GYG: *Junior crime stoppers* yn cael eu cynllunio hefyd.
- Trwy'r BCI, sicrhawyd arian i gynnal digwyddiadau *Splash* yn ystod y gwyliau yn ne ardal yr awdurdod. Cynhaliwyd y prosiect cyntaf yn ystod Pasg 2006, gyda 103 o blant a phobl ifanc yn bresennol. Cynhaliwyd yr ail yn ystod gŵyl banc mis Mai 2006, gyda chyfartaledd o rwng 80 a 90 o bobl ifanc. Roedd cynlluniau ar y gweill hefyd am raglen yn ystod gwyliau ysgol haf 2006. Ymgynghorodd y trefnwyr â phlant a phobl ifanc gan ddefnyddio *Teen Extreme,* a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru trwy'r gronfa cymunedau diogelach, a chadw lleoedd i'r GTI hyd at ddyddiad a gytunwyd, ac wedi hynny trefnwyd bod y lleoedd ar gael i'r cyhoedd. Gellid disgrifio'r mwyafrif o'r gweithgareddau yn rhai hamdden, ond roeddent hefyd yn cynnwys mewnbynnau ar iechyd rhywiol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, goryfed, diogelwch personol a bwyta'n iach.

Arfer da

Cynhaliwyd *Sioeau Teithiol Haf,* gyda'r nod o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a chodi ymwybyddiaeth o'r GTI yn y gymuned, a gynhwysai saith prif dref Powys. Roedd y sioeau teithiol yn cynnwys defnyddio fan arddangos, ymweld â rhai ardaloedd gyda thîm amlddisgyblaethol o staff GTI, yr heddlu, diogelwch cymunedol, lles addysg a gwirfoddolwyr unigol. Gwerthuswyd y sioeau teithiol ac ystyriwyd eu bod wedi bodloni eu hamcanion yn llwyddiannus o ran codi proffil y GTI.

Meysydd i'w gwella:

- Roedd gwasanaethau atal yn anffurfiol ac, yn bennaf, yn ganlyniad i fentrau unigol. Yn hynny o beth, roedd bron yn amhosibl asesu eu heffeithiolrwydd. Roedd angen i GTI Powys ac asiantaethau partner ddatblygu strategaeth atal ffurfiol a chynhwysfawr a chynllun gweithredu y gellid ei fonitro a'i werthuso. Cymerwyd y camau cyntaf tuag at ddechrau'r broses hon eisoes: roedd y Bwrdd Rheoli, trwy Gynllun Adfer Cychwynnol y GTI, wedi nodi'r angen am strategaeth atal gorfforaethol a gysylltai'r GTI, y PPO, a gwasanaethau plant ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymyrraeth gynnar. Dyrannwyd cyfrifoldeb a gosodwyd targed tymor canolig ar gyfer mis Mawrth 2007.
- I'r GTI er mwyn lwyddo wrth ddatblygu ei wasanaethau atal, byddai angen iddo nid yn unig weithio'n fwy effeithiol â sefydliadau partner ond roedd arno angen adnoddau ychwanegol hefyd. Yn ystod ail wythnos yr arolygiad, roedd yn dda gennym nodi y clustnodwyd cyllid i Gynllun Adfer Cychwynnol y GTI ddatblygu CLG magu plant mewn partneriaeth rhwng y GTI a Barnardos. Nododd yr angen i ymdrin â diffygion y GTI ym meysydd addysg arbenigol a darpariaeth iechyd a llety, ac i adolygu'r ddarpariaeth camddefnyddio sylweddau bwrpasol a ddarparwyd gan CCAP i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion y CLG.

3.2 Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu hatal rhag aildroseddu.*

Rhoddwyd blaenoriaeth i'r maes gwaith hwn gan y GTI, ond roedd wedi'i wanhau oherwydd staffio annigonol. Er hynny, roedd yn galonogol nodi bod y gyfradd aildroseddu i blant a phobl ifanc ym Mhowys yn gymharol isel o'i chymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Cryfderau:

- Cytunom ag asesiad o PN y gweithiwr achos mewn 85% o'r achosion. Cwblhawyd Asset PN llawn mewn 75% o'r achosion perthnasol.
- Cynhaliwyd ymweliadau cartref yn unol â'r safonau cenedlaethol mewn 89% o achosion. Lle bo'n berthnasol, gweithredwyd unrhyw amodau ychwanegol a oedd ynghlwm wrth y gorchymyn/trwydded yn llawn.
- Canfuom fod goruchwylydd yr achos yn symbylu'r plentyn neu'r person ifanc drwy atgyfnerthu gwaith a wnaed gan eraill a chydgysylltu'n weithgar â'r rheiny a oedd yn darparu ymyriadau mewn 72% o achosion.

- Roedd Heddlu Dyfed Powys wedi mabwysiadu arweiniad 2002 y Swyddfa Gartref/BCI ar gyfer cyflwyno rhybuddion terfynol. Er mai dim ond mewn 50% o'r sampl yr oedd yr heddlu'n rhoi gwybod i'r GTI o fewn diwrnod o'r penderfyniad i gyhoeddi rhybudd terfynol, roedd manylion am y dioddefwr yn cael eu cynnwys yn yr holl achosion priodol. Gwahoddwyd dioddefwyr i gymryd rhan yn y broses mewn 70% o'r sampl hefyd, a chymerodd 43% ohonynt ran. Roedd dioddefwyr a gynhwyswyd yn y broses yn fodlon mewn 80% o achosion. Aseswyd y plentyn neu'r person ifanc gan y GTI cyn pen deng niwrnod gwaith mewn 80% o achosion, a chyflwynwyd y rhybudd terfynol mewn 20 diwrnod gwaith mewn 90% o achosion; 70% gan gynnwys ymyriad.
- Paratowyd adroddiadau ysgrifenedig i baneli cyfeirio ym mhob achos ac ystyriai'r contract faterion penodol am y plentyn neu'r person ifanc o ran cyflwyno'r rhaglen mewn 83% o achosion. Mewn 89% o'r achosion a archwiliwyd, cynhaliwyd cyfnod llawn y contract.
- Roedd y mwyafrif o'r plant a phobl ifanc a oruchwyliwyd gan y GTI yn cydymffurfio ag amodau eu gorchymyn/trwydded.

Meysydd i'w gwella:

- Er y cwblhawyd Asset ar yr holl achosion a archwiliwyd ar gychwyn ymyriad penodol, dim ond 75% a fodlonai amserlen y safon genedlaethol a barnwyd mai dim ond 42% oedd o ansawdd digonol. Nid oedd ymarferwyr yn adolygu Asset fel rhan o'r drefn yn ystod y gorchymyn, dim ond ar y cychwyn ac ar y diwedd.
- Dim ond mewn 41% o'r sampl y cwblhaodd y plentyn neu'r person ifanc ffurflen *What do you think?*, er y defnyddiwyd ffurflen amgen mewn 15%.
- Nid oedd yr un o'r achosion a nodwyd yn rhai 'pryder risg' neu 'ymwybodol o risg' wedi cael eu cyfeirio at reolwr, yn bennaf am na fu'r un ar gael am gyfnod hir cyn yr arolygiad. Roedd Cynllun Adfer Cychwynnol y GTI yn darparu ar gyfer recriwtio dau reolwr tîm ar unwaith.
- Dim ond mewn 8% o achosion y cwblhawyd cynlluniau goruchwylio cychwynnol a chynlluniau adolygu hyfforddiant yn foddhaol. Nid oeddent yn bodloni anghenion cynnwys y safon genedlaethol nac yn cynnwys amcanion CAMPUS. Dim ond traean o'r cynlluniau oedd yn cynnwys prosesau addas o ran dioddefwyr ac adfer, a dim ond hanner oedd yn ymdrin ag anghenion unigol y plentyn neu'r person ifanc o ran amrywiaeth.
- Roedd cynnydd yn erbyn yr amcanion a gynhwyswyd yn y cynllun goruchwylio cychwynnol/hyfforddi wedi'u hadolygu'n foddhaol yn unol â'r safon genedlaethol mewn 42% o achosion.
- Dim ond mewn 50% o'r sampl y cymerwyd camau i sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn deall gofynion y gorchymyn/trwydded yn llawn. Hefyd, mewn 50% o achosion, cafwyd yr apwyntiad cyntaf

â'r plentyn neu'r person ifanc, yn dilyn gorchymyn cymunedol, o fewn un diwrnod gwaith o'r ymddangosiad llys. Cafodd yr achosion a oedd yn weddill eu hapwyntiadau cyntaf rhwng dau ddiwrnod a mwy na deng niwrnod, gyda mwy na'u hanner yn fwy na phum niwrnod.

- Roedd lefel cysylltiad â phlant a phobl ifanc yn rhy isel. Dim ond mewn 68% o achosion yr oedd amlder yr apwyntiadau a drefnwyd ac a gadwyd, yn fras, yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol, gofynion y gorchymyn/trwydded ac unrhyw ystyriaethau o ran perygl o niwed.
- Roedd angen cryfhau camau gorfodi hefyd. Roedd barnau ynghylch derbynioldeb/annerbynioldeb yn bodloni'r safon genedlaethol mewn 64% o achosion, a chafwyd tor gweithred neu adalw mewn 43% o achosion.
- Dim ond mewn 33% o'r sampl achosion yr oedd paneli gorchmynion cyfeirio yn ymgynnull cyn pen 20 niwrnod gwaith, a chyflwynwyd y contract yn unol â'r gofynion a gytunwyd mewn llai na hanner y sampl. Ni chynhaliwyd adolygiadau bob tro.
- Canfuom arfer anghyson o ran gwaith unigol gyda phobl ifanc. Roedd rheolwyr achosion yn dueddol o ganolbwyntio ar anghenion lles yr achos. Roedd amharodrwydd hefyd i ddefnyddio pecynnau amrywiol gyda phobl ifanc i ymdrin yn drwyadl â materion fel sgiliau ymresymu a meddwl, ymagweddau at droseddu, rheoli dicter, ymwybyddiaeth o ddioddefwyr, ac effaith profedigaeth a thrais domestig.
- Er gwaethaf gwelliannau mewn rhai meysydd troseddegol, fel ffordd o fyw a chamddefnyddio sylweddau, awgrymodd archwiliad o'r ffeiliau achos nad oedd digon o gynnydd yn cael ei wneud o ran rhai ffactorau allweddol a oedd yn cyfrannu at ymddygiad troseddol y person ifanc. Yn benodol, roedd cynnydd annigonol o ran: addysg statudol; Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg Bellach; canfyddiad o'u hunain ac eraill; ymagwedd at droseddu a symbyliad i newid.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff iechyd plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu ei hyrwyddo gan waith y TTI.*

Roedd BILl Powys yn cyfuno swyddogaethau comisiynu a darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd nifer o ffactorau a oedd yn atal datblygu gwasanaethau cymunedol cynaliadwy ac roedd y rhain yn cynnwys mas critigol y boblogaeth wedi'i gwasgaru dros ardal ddaearyddol eang a nifer ostyngol o blant.

Yn ei gynllun CAMHS a gyflwynwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru, roedd y BILl wedi cydnabod bod gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol arbenigol yn ostyngol o fregus yn y sir. Ni allai gynnig ystod lawn y gwasanaethau ym Mhowys ac roedd yn comisiynu rhai gwasanaethau o Ymddiriedolaethau GIG eraill. Fodd bynnag, y BILl oedd yn gyfrifol am arwain Rhwydwaith Comisiynu CAMHS ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru ac roedd yn cydweithredu â BILlau eraill ar ddatblygiad a chynaladwyedd gwasanaethau CAMHS.

Cafwyd anhawster sylweddol wrth recriwtio i rai swyddi CAMHS arbenigol fel seicoleg glinigol, ond roedd y sefyllfa wedi gwella erbyn adeg yr arolygiad. Rhoddwyd gwybod i ni hefyd bod yn rhaid i'r gwasanaethau ymateb i nifer uchel o blant a phobl ifanc a osodwyd ym Mhowys gan awdurdodau lleol allanol. Roedd y rhain yn cynnwys pobl ifanc a oedd wedi troseddu, neu yr ystyriwyd eu bod mewn perygl o droseddu, ac ystyriwyd bod gan eraill anghenion iechyd meddwl cymhleth.

Yn y cyd-destun hwn, roedd gan y GTI broblemau o ran sicrhau digon o fewnbwn iechyd ac, o ddydd i ddydd, nid oedd wedi llwyddo i gael mynediad at wasanaethau arbenigol fel CAMHS mewn ffordd gyson a defnyddiol.

Cryfderau:

- Yn ddiweddar, roedd rheolwr comisiynu'r BILl a phennaeth gwasanaethau merched a phlant wedi ymuno â Bwrdd Rheoli'r GTI.
- Roedd Cynllun Adfer Cychwynnol y GTI wedi nodi diffygion difrifol yn y ddarpariaeth iechyd arbenigol i'r GTI. Roedd y BILl yn archwilio anghenion iechyd er mwyn pennu'r gefnogaeth y byddai ei hangen ar y GTI yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys rhoi prawf ar gyfranogiad nyrs ysgol a nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal.

Meysydd i'w gwella:

- Nid oedd yn eglur o hyd sut roedd y BILl yn bwriadu bodloni ei gyfrifoldeb statudol i sicrhau y darparwyd ar gyfer anghenion corfforol ac anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc sy'n troseddu trwy wasanaethau priodol. Nid oedd unrhyw gytundebau ar waith i ariannu staff a secondiwyd a chyflogi staff newydd, nac unrhyw brotocolau a ymdriniai â'u rolau, eu cyfrifoldebau na'u hanghenion hyfforddiant. Yn ogystal, nid oedd unrhyw gytundebau a gynhwysai pa brosesau sgrinio, asesu ac ymyrryd a fyddai'n digwydd, na pha offer a fyddai'n cael eu defnyddio, er enghraifft SQUIFA a SIFA. Roedd angen i'r BILl a'r GTI hefyd nodi'r sianeli y byddai gweithwyr yn eu defnyddio i gydlynu â phroffesiynolion iechyd eraill mewn lleoliadau gofal sylfaenol a lleoliadau iechyd eraill ac i adolygu ei brotocol rhannu gwybodaeth.
- Adeg yr arolygiad, roedd y BILl wedi achosi bod dau weithiwr iechyd ar gael a chanddynt gefndiroedd mewn nyrsio ysgol ac ymweliadau iechyd â'r GTI. Roedd y gweithwyr iechyd hyn yn gweithio fel rhan o'r tîm diogelu plant, gan dreulio cyfanswm o 7.5 awr yr wythnos gyda thimau gogledd a de y GTI. Roeddent yn ei chael yn anodd mynd i'r afael â gwaith y GTI, yn rhannol oherwydd y nifer isel o oriau oedd ar gael, oherwydd diffyg eglurder ynglŷn â'u rôl a diffyg posibl yn y wybodaeth a'r sgiliau arbenigol gofynnol. Ni chynorthwyid y sefyllfa gan y ffaith nad oedd CLG rhwng y BILl, CAMHS a Bwrdd Rheoli'r GTI, a nodai rolau a chyfrifoldebau'r gweithwyr iechyd o fewn y GTI, ac roedd angen ymdrin â hyn.
- Nid oedd y GTI wedi gallu bodloni safon y BCI y dylai plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl gael mynediad at wasanaethau

asesu iechyd meddwl cyn pen cyfnodau penodedig o bum niwrnod ar gyfer y rheiny a chanddynt angen difrifol a 15 niwrnod i'r rheiny nad oedd eu hangen yn un difrifol. Yn ystod yr arolygiad, rhoddwyd gwybod i ni fod hyn yn groes i'r cyngor a gafodd y BILl gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n ymddangos y gosodwyd targed fframwaith strategol ac ariannol i BILlau sicrhau nad oedd unrhyw blentyn yn aros mwy na chwe mis am asesiad ac ymyriadau rheolaidd gan CAMHS. Roedd angen esbonio'r mater hwn ymhellach.

- Canfuom dystiolaeth o anghenion iechyd emosiynol ac iechyd meddwl mewn 38% o'r sampl achosion, ond dim ond 45% o'r rhain yr ymdriniwyd â nhw'n briodol. Lle'r oedd anghenion iechyd corfforol, roedd 67% o achosion wedi'u cyfeirio'n briodol.
- Roedd gan y GTI fynediad at CCAP ond nid oedd gweithiwr pwrpasol camddefnyddio sylweddau yn rhan o'r tîm. Oherwydd yr arfer gwael o ran asesu a chofnodi, nid oedd yn bosibl asesu gwir raddfa'r camddefnyddio alcohol a chyffuriau gan blant a phobl ifanc a oedd yn hysbys i'r GTI. Gwnaed cyfeiriadau priodol mewn 72% o'r achosion a nodwyd a oedd yn cynnwys camddefnyddio sylweddau.
- Datblygwyd manyleb gwasanaeth ddrafft gan y GTI a'r CCAP i ddarparu gwasanaeth camddefnyddio alcohol i 55 o bobl newydd a gâi eu cyfeirio yn flynyddol, ond nid oedd yr amserlenni a nodwyd yn y ddogfen ar gyfer asesu a darparu'r driniaeth, os oedd hynny'n ofynnol, yn bodloni'r safonau yn arweiniad y BCI. Roedd y fanyleb gwasanaeth hon yn cynnwys y ffaith y byddai CCAP yn ymgymryd ag elfen camddefnyddio sylweddau grant y BCI.
- Roedd CLG arall rhwng CCAP ac ystod o asiantaethau gan gynnwys y GTI, ond nid oedd wedi'i anelu'n benodol at blant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu. Roedd y fanyleb gwasanaeth ddrafft (y cyfeirir ati yn y paragraff blaenorol) wedi'i hanelu at fodloni'r diffyg hwn. Roedd y gwasanaeth hwn yn darparu adnoddau ychwanegol gan gynnwys cynghori, cyngor, eiriolaeth, gwybodaeth, lleihau niwed, cyfnewid nodwyddau, rhagnodi amnewidion a phrofi ar ffurf rhaglenni therapiwtig tymor byr, tymor canolig a hirdymor. Fodd bynnag, nid oedd yn eglur sut roedd y gwasanaeth hwn yn ategu'r cytundeb drafft penodol rhwng y GTI a CCAP.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu diogelu trwy waith y TTI.*

Yn rhannol oherwydd arfer anghyson a rheolaeth oruchwyliol wan, ni allem fod yn hyderus fod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu yn gyson trwy waith y GTI. Fodd bynnag, canfuom dystiolaeth fod yr agwedd hon ar waith y GTI wedi cychwyn newid, ond ei fod o hyd ar gyfnod cynnar yn ei ddatblygiad. Erbyn hyn, roedd rheolwr y GTI wedi dod yn fwy cysylltiedig â'r tîm rheoli gwasanaethau plant, a phenderfynwyd y byddai Pennaeth newydd Gwasanaethau Gweithredol Plant yn cymryd arno/arni'r cyfrifoldeb

llawn am y GTI ym mis Gorffennaf 2006. Felly, roedd cyfle i wneud cynnydd sylweddol o ran integreiddio'r GTI yn rhan o'r tîm gwasanaethau plant a'r awdurdod lleol ehangach.

Cryfderau:

- Aseswyd pa mor ddiamddiffyn oedd unigolion fel rhan o Asset. Cyfeirid unrhyw blentyn neu berson ifanc yr ystyrid eu bod mewn PN at wasanaethau plant o dan weithdrefnau'r PAAP. Cyfrannai staff y GTI at gynlluniau diogelu plant fel yr oedd yn briodol. Roedd hyfforddiant diogelu plant sylfaenol yn rhan o hyfforddiant craidd staff GTI.
- Cysylltodd y GTI â'r gwasanaethau plant mewn 86% o'r sampl achosion o Blant sy'n Derbyn Gofal a chyfrannu at eu cynlluniau gofal a'u hadolygiadau statudol.

Meysydd i'w gwella:

- Er y cymerwyd camau mewn 83% o achosion lle ystyrid bod plentyn neu berson ifanc yn ddiamddiffyn i niwed ganddo'i hun neu gan eraill, dim ond mewn 67% o'r achosion hynny yr oeddem yn eu hystyried yn briodol.
- Mewn dim ond 50% o'r sampl achosion cysylltodd y GTI â gwasanaethau plant i wirio a oedd pobl ifanc yn hysbys iddynt ai peidio.
- Canfuom y gellid gwella lefel y ddealltwriaeth o rolau penodol staff y GTI a staff gwasanaethau plant. Yn y cyd-destun hwn, roedd angen i'r ddau wasanaeth ailedrych ar eu protocolau arfer o ran eu cydgyfrifoldeb am weithio gyda phlant diamddiffyn a Phlant sy'n Derbyn Gofal.
- Canfuom enghreifftiau o bobl ifanc diamddiffyn a oedd angen llety yn cael eu gosod mewn cyfleusterau gwely a brecwast a hostel anaddas yn absenoldeb darpariaeth fwy addas. Roedd angen sylw brys ar hyn gan Fwrdd Rheoli'r GTI.
- Roedd yr archwiliad o hyfforddi wedi nodi bod ar staff y GTI angen hyfforddiant ar PND a MAPPA er mwyn iddynt allu cyfrannu'n effeithiol at y MAPPA. Roedd hefyd wedi nodi'r angen am hyfforddiant ar asesu a gweithio gyda phlant ifanc sy'n cyflawni troseddau rhywiol.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu galluogi a'u hannog i gyflawni eu potensial.*

Ar ôl wythnos gyntaf yr arolygiad, nododd y Bwrdd Rheoli fod angen cymryd camau ar unwaith, trwy Gynllun Adfer Cychwynnol y GTI, i gywiro y diffyg darpariaeth addysg arbenigol i dîm y GTI. Felly, roedd yn falch ganddo gael nodi yn ystod yr ail wythnos fod yr awdurdod yn paratoi i hysbysebu am weithiwr addysg a hyfforddi i'w secondio i'r GTI am flwyddyn. Y Pennaeth Cynnwys Disgyblion, a fyddai hefyd yn aelod o Fwrdd

Rheoli'r GTI, fyddai rheolwr llinell uniongyrchol y swydd hon. Roedd hefyd yn arwyddocaol y byddai'r Pennaeth Dysgu Gydol Oes yn aros yn aelod o'r Bwrdd Rheoli er mwyn cynnal cysylltiadau da ar draws y PPPI a'r gwasanaeth ieuenctid.

Cryfderau:

- Canfuom fod plant a phobl ifanc wedi cael anawsterau â'u haddysg mewn 65% o'r achosion a arolygwyd, ac y cymerwyd camau priodol mewn 81% ohonynt. Canfuwyd hefyd y bu'r camau hyn yn effeithiol mewn 62% o achosion.
- Cysylltai'r Gwasanaeth Addysg Gyflenwol, a oedd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc a eithriwyd neu a dynnwyd yn ôl o'r ysgol, yn agos gyda'r GTI a mynychai aelodau tîm y GTI gyfarfodydd adolygu cynnydd unigolion. Roedd pobl ifanc yn ymwneud â'r gwasanaeth hwn ac roeddent yn gallu cael mynediad at ystod eang o gyrsiau TGAU a oedd yn cynnwys: Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, TG, Hanes, Daearyddiaeth, Cymdeithaseg, Celf ac Addysg Gorfforol. Roeddent hefyd yn gallu ennill sgiliau mewn llythrennedd a rhifedd oedolion ac yn gallu cael cefnogaeth benodol gyda'u hanghenion cyffuriau ac alcohol.
- Roedd gan y Gwasanaeth Addysg Gyflenwol gysylltiadau da â Choleg Powys a Hyfforddiant Powys.
- Roedd gan y GTI fynediad at wasanaeth lles addysg a oedd yn weithredol wrth gefnogi'r paneli cyfiawnder adferol a phartneriaethau diogelwch cymunedol. Roeddent hefyd yn cysylltu ag ysgolion i helpu cwblhau elfen addysg Asset.
- Cynigiai'r awdurdod lleol wasanaeth cefnogi ymddygiad i'r sector cynradd trwy gontract â Gwasanaeth Cyfryngu Powys. Datganolwyd cyllid pellach hefyd i ysgolion uwchradd ddarparu ymateb hyblyg at ymddygiad heriol. Roedd y cyllid hwn wedi helpu i sefydlu cydlynwyr cynhwysiant cymdeithasol mewn ysgolion uwchradd, a weithiai gyda phlant a phobl ifanc ar raglenni cymorth unigol. Roedd cefnogaeth ychwanegol ar gael hefyd drwy'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a gellid cael mynediad at gyfleusterau ychwanegol drwy'r paneli cynhwysiant cymdeithasol a datganiadau. Roedd peth tystiolaeth i ddangos bod y trefniadau hyn yn annog gwaith rhyngasiantaeth i fodloni anghenion unigol, ac roedd rheolwr y GTI yn aelod o'r panel cynhwysiant cymdeithasol.
- Roedd yr ymgyrch gwrth-fwlio amlasiantaeth yn enghraifft dda o'r GTI, ac asiantaethau eraill gan gynnwys Coleg Powys ac ysgolion uwchradd, yn gweithio gyda'i gilydd i hysbysu am fwlio, ei atal ac ymdrin ag ef.

Meysydd i'w gwella:

- Adeg yr arolygiad, nid oedd gan GTI Powys weithiwr addysg arbenigol yn rhan o'r tîm. O ganlyniad, ychydig iawn o waith rhagweithiol a wnaed i helpu plant a phobl ifanc a oedd o dan oruchwyliaeth y GTI i

gael mynediad at addysg a hyfforddiant amser llawn. Roedd y ddarpariaeth ar gyfer asesu sgiliau sylfaenol hithau'n wan hefyd.

- Roedd eithriadau o ysgolion yn uwch nag y dylent fod, ac roedd hyn yn effeithio'n negyddol ar y plant a'r bobl ifanc o dan oruchwyliaeth y GTI.
- Nid oedd unrhyw hyfforddiant systematig ar waith i staff y GTI mewn materion addysgiadol a oedd yn berthnasol i'w gwaith, er bod rhai aelodau staff wedi ceisio a chael hyfforddiant yn y broses eithrio gan y cydlynydd eithrio cymdeithasol.
- Dim ond mewn 26% o'r sampl yr oedd pobl ifanc wedi cael unrhyw gysylltiad ag Ymgynghorydd Gyrfa Cymru.
- Dim ond mewn 48% o'r sampl achosion yr oedd darparwr addysg y person ifanc yn rhoi gwybod i Asset. Roedd yn siomedig nodi mai dim ond mewn 3% o achosion yr oedd addysg statudol wedi dangos gwelliant, ac mewn 9% o achosion ar gyfer cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg bellach.

Arfer da

Yn 2005, sefydlwyd prosiect moduron yn ne'r sir, a gychwynnwyd gan y GTI, a ariennid gan y BCI ac a reolid gan y gwasanaeth ieuenctid. Roedd y prosiect yn defnyddio gweithdai Coleg Powys ac yn dilyn cwricwlwm cydnabyddedig a oedd yn gysylltiedig ag adeiladu ceir cit a'u profi oddi ar y ffordd. Derbyniai gyfeiriadau gan ystod o asiantaethau gan gynnwys y GTI ac roedd ganddo uchafswm o 12 lle. Cyfwelwyd pob person ifanc yn ffurfiol am eu haddasrwydd cyn cael ei dderbyn. Trefnwyd cynnal sesiynau unwaith yr wythnos ar ôl yr ysgol am 4.30pm am 25 wythnos. Roedd pobl ifanc yn gallu ennill achrediad RhCA a darparai Her Powys gludiant yn ôl y gofyn. Ar ddiwedd y cwrs cawsant gyfle i symud ymlaen i gwrs amser llawn yng Ngholeg Powys.

Roedd y prosiect yn cael ei werthuso ac roeddent yn y broses o gael cyllid am brosiect tebyg yng ngogledd y sir.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc eu gwella gan eu cysylltiad trwy ymgynghori ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan y TTI.*

Cryfderau:

- Cyfwelwyd â phlant a phobl ifanc a chynhwyswyd eu cyfweliadau mewn ACDau ac adroddiadau'r panel cyfeirio. Roeddent hefyd yn cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd asesu a chynllunio, gyda'u rhieni/gofalwyr.

- Gweithredai'r GTI yn ôl y safonau a gynhwysid yng ngweithdrefn gwyno Powys, a sicrhawyd bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn o'u cysylltiad cyntaf â'r GTI.
- Cyfwelwyd â chwe pherson ifanc yn ystod yr arolygiad. Adroddodd y mwyafrif eu bod wedi cael cysylltiadau da iawn â staff y GTI a'u bod yn cael help i ymdrin â rheoli dicter, pwysau gan grwpiau cyfoedion, a chyfweliadau yn yr ysgol am swyddi. Roedd pob un ohonynt o'r farn fod eu cysylltiad â'r GTI wedi'u helpu'n bersonol. Roeddent wedi cael cyfleoedd i ymdrin â'u hymddygiad troseddol a'u hymagweddau tuag at ddioddefwyr. Roedd sylwadau gan y bobl ifanc yn cynnwys: *"Bu'n help mawr ac mae wedi fy nghadw i allan o uned ddiogel."; "Mae'r ffordd y mae'n dweud pethau yn ei gwneud yn hawdd deall ac yn gwneud i mi eisiau gwrando a chymryd sylw."; "Rwy'n fwy amyneddgar nawr ac yn llai ymosodol. Mae'r mentor wedi helpu fy stopio rhag bod wedi diflasu."; "Roedd cysylltiad da gyda fy mam hefyd. Mae gen i agwedd wahanol iawn at fywyd."*.

Meysydd i'w gwella:

- Roedd angen mwy o gysondeb o ran ymgynghori. Wrth gau achosion, anfonai rhai aelodau o'r staff holiadur bodlonrwydd at blant a phobl ifanc, rhieni a dioddefwyr, ond nid oedd yr arfer hwn yn gyson ar draws y tîm. Roedd lefelau adborth yn isel ac nid oedd yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd i adolygu a llywio arfer.
- Roedd y cyfleusterau cyfweld yn swyddfeydd y GTI yn annigonol. Roedd angen cael cyfleusterau cyfweld a chysylltu yn agosach at gartref y person ifanc hefyd.
- Roedd angen i daflenni gwybodaeth fod ar gael i blant a phobl ifanc yn Gymraeg a Saesneg.

3.3 Gwaith gyda rhieni/gofalwyr

Dyfarniad allweddol:

- *Cefnogir rhieni/gofalwyr wrth fynd i'r afael â throseddu eu plant.*

Nid oedd gan y GTI gydlynydd magu plant na gweithiwr cynnal penodol, ond roedd wedi dosbarthu'r gwaith hwn yn anffurfiol ymysg aelodau amrywiol y tîm. Roedd yr holl staff y cyfwelwyd â nhw o'r farn eu bod yn gwneud gwaith magu plant. Fodd bynnag, roedd gwendidau mewn arferion wedi'u nodi eisoes ac roedd y rhain yn cael eu trafod trwy Gynllun Adfer Cychwynnol y GTI. Roedd y Bwrdd Rheoli wedi nodi adnoddau o gyllid atal, ac roedd y GTI yn y broses o drafod CLG gyda Barnardos ar gyfer gwasanaethau magu plant. Rhagwelid y byddai gwasanaethau priodol ar gael o fis Medi 2006.

Roedd rheolwr gwasanaethau plant Barnados a rheolwr y GTI a oedd yn gyfrifol am drafod y CLG wedi ymrwymo i gyflwyno ymyriadau magu plant

statudol a gwirfoddol. Roedd protocol meini prawf cyfeirio yn y broses o gael ei ysgrifennu, a chynlluniwyd cynnal ymweliadau ar y cyd â rhieni/gofalwyr i sicrhau bod y meini prawf yn cael eu bodloni. Yn ogystal, byddai un aelod o staff Barnardos yn mynychu cyfarfodydd tîm GTI yn rheolaidd i gynorthwyo â chyfathrebu ac i gydlynu'r broses. Cynllunid hyfforddi staff Barnados a staff GTI ar y cyd hefyd i sicrhau bod pawb yn deall yr hyn a ddisgwylid ganddynt a'u bod yn cofleidio'r fenter newydd.

Roedd y BILl hefyd yn gwneud cyfraniad ariannol sylweddol at Brosiect Magu Plant Barnardos, ac roedd hefyd yn aelod o'r grŵp amlasiantaeth a oedd yn cydlynu ac yn datblygu ymagwedd gadarnhaol at fagu plant ym Mhowys. Adeg yr arolygiad, roedd 100 diwrnod o ddosbarthiadau magu plant yn cael eu cynllunio a byddent yn agored i gyfeiriadau gan y GTI.

Cryfderau:

- Roedd camau yn cael eu cymryd i ymdrin â diffyg y ddarpariaeth magu plant a oedd ar gael i'r GTI.
- Lle'r oedd plentyn neu berson ifanc yn iau na 16 mlwydd oed, cyfwelid â'r rhieni/gofalwyr mewn 79% o achosion fel bod yr asesiad yn adlewyrchu eu barnau penodol o ran anghenion y plentyn.
- Roedd y mwyafrif o'r plant a'r bobl ifanc yn byw gartref gyda'u rhieni/gofalwyr. Roedd yr ymweliadau cartref ar gyfer yr holl orchmynion, ac eithrio rhybuddion terfynol, yn bodloni'r safon genedlaethol mewn 89% o'r sampl achosion.
- Cynghorid rhieni/gofalwyr plant a phobl ifanc a oruchwylid gan y GTI yn briodol a rhoed y wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau trwy gydol y gorchymyn mewn 77% o'r achosion.
- Dywedodd pob un o'r tri rhiant/gofalwr y cysylltwyd â nhw yn ystod yr arolygiad i'r GTI fod yn gefnogol iawn.

Meysydd i'w gwella:

- Roedd y GTI yn y broses o adolygu ei drefniadau ar gyfer cefnogi rhieni/gofalwyr i ymdrin â throseddu eu plant. Fodd bynnag, ni chwblhawyd hyn adeg yr arolygiad. Roedd i'r trefniadau presennol ddiffyg ffocws ac eglurder ac roedd angen eu trefnu a'u rheoli'n well.
- Er yr ymwelid â rhieni/gofalwyr ac y caent eu cefnogi, dim ond 9% ohonynt a oedd yn cael eu cynnwys mewn ymyriad magu plant a gynlluniwyd. Cydnabuwyd bod angen adnoddau ychwanegol i hyrwyddo asesiadau a rhaglenni cadarn ar gyfer ymyrryd.

ASESIAD CYFFREDINOL O WAITH Â PHLANT A PHOBL IFANC YN Y GYMUNED

Bernir bod yr adran hon yn annigonol.

4. GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SY'N DESTUN GCHau

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff y tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc sy'n derbyn GCH yn troseddu eto ei leihau trwy ymyriad y TTI trwy asesiad.*

Yn ystod yr arolygiad darllenom bedwar ffeil achos a siom oedd nodi nad oeddent wedi'u rheoli yn ôl gofynion safonau cenedlaethol mewn rhai meysydd allweddol. Cafodd y diffyg trefniadau cadarn rhwng y GTI, Gyrfa Cymru, gwasanaethau addysg ac iechyd effaith sylweddol ar y bobl ifanc a oedd yn destun GCHau. Roedd y Cynllun Adfer Cychwynnol GTI a gytunwyd gan y Bwrdd Rheoli ym Mai 2006 yn dilyn y pryderon a fynegwyd yn ystod wythnos gyntaf yr arolygiad yn gam cadarnhaol ymlaen.

Cryfderau:

- Cyfwelwyd â phob un o'r pedwar person ifanc yn y sampl achosion ar unwaith yn dilyn eu dedfrydu. Cafodd Asset a phob asesiad perthnasol a gwybodaeth arall eu hanfon i'r sefydliad cyn pen 24 awr.
- Bodlonodd yr asesiad cychwynnol y safon genedlaethol o ran prydlondeb mewn 75% o'r achosion.
- Roedd ymweliadau â'r person ifanc yn y ddalfa, a chyswllt rheolaidd â'u rhieni/gofalwyr, yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau cenedlaethol ym mhob achos.

Meysydd i'w gwella:

- Roedd asesiadau cychwynnol yn bodloni'r safon genedlaethol o ran ansawdd mewn un o dri achos. Dim ond mewn dau allan o'r pedwar achos y cymerodd y person ifanc ran yn yr asesiad. Nid oedd yr un o'r sampl wedi llenwi'r ffurflen *What do you think?* ac nid oedd yn ymddangos bod unrhyw ffurflen debyg yn cael ei defnyddio gan y GTI.
- Er bod camau wedi'u cymryd ym mhob achos lle barnwyd bod person ifanc yn agored i niwed oddi wrth ei hun neu eraill, ni chafodd ei ystyried yn briodol i anghenion yr achos mewn unrhyw un o'r rhai a archwiliwyd.
- Gwelwyd tystiolaeth o anghenion iechyd emosiynol neu feddyliol mewn tri o'r pedwar achos. Roedd pob un yn camddefnyddio cyffuriau a/neu alcohol. Er bod trefniadau wedi'u gwneud i fodloni anghenion iechyd y person ifanc cyn eu rhyddhau ym mhob achos, ni chafodd gwaith a ddechreuwyd yn ystod eu carchariad mewn perthynas ag ymddygiad troseddol, addysg a hyfforddiant, pryderon iechyd, a

chamddefnydd cyffuriau ac alcohol ei barhau yn y gymuned mewn mwy na hanner y sampl o achosion.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff y tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc sy'n derbyn* GCHau *yn aildroseddu ei leihau trwy ymyriad y TTI trwy gyswllt â'r plentyn neu'r person ifanc a chyswllt effeithiol â'r sefydliad gwarchodol yn ystod y cyfnod gwarchodol.*

Cafodd achosion GCH flaenoriaeth uchel ac fe'u dyrannwyd i aelodau profiadol o'r tîm. Roedd nifer yr achosion yn isel, a dim ond cyfanswm o bump a fu ers Ebrill 2005.

Cryfderau:

- Roedd y rheolwr achos yn cymryd rhan mewn cynllunio ac adolygu'r ddedfryd ym mhob achos yn y sampl a sicrhaodd fod y trefniadau angenrheidiol ar gyfer rhyddhau yn cael eu trafod a'u cytuno yn y cyfarfod adolygu terfynol. Cafodd lefelau da o gyswllt eu cynnal â'r sefydliad drwy ffôn, ffacs, post electronig, llythyr ac ymweliadau personol.
- Hwylusodd staff y GTI drefniadau cludiant er mwyn i rieni/gofalwyr gael mynychu cyfarfodydd lle bynnag y bo modd.
- Er bod pobl ifanc yn cael eu cyfarwyddo i fynychu'r GTI ar ddiwrnod eu rhyddhau, yn ymarferol, roedd trefniadau fel arfer yn cael eu gwneud i'w casglu o'r sefydliad gwarchodol, oherwydd y pellteroedd dan sylw ac anawsterau gyda chludiant.

Meysydd i'w gwella:

- Gallai'r dilyniant i'r rhai a fu mewn addysg amser llawn o'r blaen gael ei wella'n sylweddol. Nid oedd trefniadau i fodloni anghenion asesedig addysgol a hyfforddiant y person ifanc wedi'u cyflawni yn dilyn eu rhyddhau mewn unrhyw un o'r achosion a archwiliwyd. Byddai cyfranogiad y Gwasanaeth Gyrfaoedd ac addysg yn y broses gynllunio cyn-rhyddhau yn gwella cyfleoedd ETE i blant a phobl ifanc yn dilyn eu rhyddhau.
- Nid oedd barn asiantaethau addysg a hyfforddiant yr ardal gartref yn cael eu cynrychioli yn y cyfarfod cynllunio cychwynnol ym mhob achos ac nid oedd cynllun dysgu unigol y person ifanc yn cael ei barhau yn dilyn ei ryddhau. Nid oedd y cynllun dysgu wedi'i adolygu'n rheolaidd, ei ddiweddaru na'i rannu â darparwyr perthnasol ym mhob un o'r achosion a archwiliwyd.
- Er nad y GTI oedd yn gyfrifol am ysgrifennu'r cynllun hyfforddi cychwynnol, cyfrannodd staff y GTI at y cynllun yn ystod rhan warchodol y ddedfryd. Cawsom nad oedd y cynlluniau hyfforddi cychwynnol yn bodloni gofynion y safon genedlaethol o ran cynnwys, nac yn cynnwys amcanion CAMPUS a phrosesau addas ar gyfer y

dioddefwr ac adfer yn hanner yr achosion. Nid oedd cydweddu agos rhwng ymyriadau a gynlluniwyd a'r Perygl o Niwed a aseswyd mewn unrhyw un o'r achosion a archwiliwyd.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff y tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc sy'n derbyn GCHau ei leihau trwy ymyriad y TTI trwy ailintegreiddio i'r gymuned..*

Cryfderau:

- Gwnaed gwaith paratoi i fodloni anghenion plant a phobl ifanc mewn cyfarfodydd cyn-rhyddhau, drwy bresenoldeb staff y GTI.
- Gwnaeth staff y GTI ymdrechion clodwiw i weithio gyda'r bobl ifanc dan sylw yn ystod eu dedfryd ac i'w hailintegreiddio i'r gymuned.
- Bodlonwyd y safonau cenedlaethol o ran deall gofynion y drwydded, nifer yr apwyntiadau a gynigiwyd a phresenoldeb, a gorfodi yn dilyn rhyddhau ym mhob achos a archwiliwyd.
- Roedd plant a phobl ifanc a ystyriwyd yn risg uchel i'r gymuned neu i bobl eraill yn destun MAPPA a chafodd cynllun amddiffyn ei lunio.

Maes i'w wella:

- Roedd angen i ddilyniant gwasanaethau gan asiantaethau sy'n ymwneud â'r person ifanc fod yn fwy effeithiol yn ystod ac yn dilyn rhyddhau i'r gymuned. Dychwelodd y mwyafrif o'r bobl ifanc adref i'w teuluoedd ac i mewn i'r un cymdogaethau a grwpiau cymheiriaid. O ganlyniad, roedd pobl ifanc yn parhau'n agored i'r perygl o aildroseddu. Gwnaeth staff y GTI ymdrechion clodwiw i weithio gyda'r bobl ifanc o dan sylw yn ystod eu dedfryd ac i'w hailintegreiddio i'r gymuned. Serch hynny, cafodd y gwaith hwn ei danseilio gan ddiffyg pecynnau cymorth addas a oedd yn cynnwys ETE a lle bo angen llety gwahanol a chefnogaeth gyda phroblemau cyffuriau/alcohol. O ganlyniad, methodd tri o'r pedwar person ifanc â chydymffurfio ag amodau gofynion eu trwydded ar ôl eu rhyddhau.

Dyfarniad allweddol:

- *Mae'r TTI yn dangos canlyniadau cadarnhaol yn ei waith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun GCHau.*

Cryfderau:

- Roedd staff y GTI wedi ymrwymo i wella cyfleoedd plant a phobl ifanc a ddedfrydwyd i GCHau mewn bywyd.
- Yn y pedwar ffeil achos a archwiliwyd, roedd staff y GTI wedi amlygu a chyfathrebu ffactorau risg penodol i'r sefydliad diogel ar unwaith.

Meysydd i'w gwella:

- Er bod staff GTI yn gwneud ymdrechion mawr i gefnogi plant a phobl ifanc, roedd y diffyg perthnasoedd effeithiol â darpariaeth arbenigol i'r tîm yn ymdrin ag addysg, gyrfaoedd, iechyd a magu plant yn golygu nad oedd ymyriadau priodol cyn ac ar ôl rhyddhau yn ddigonol.
- Nid oedd anghenion addysg a hyfforddiant, anghenion iechyd a'r gwaith a wnaed i godi ymwybyddiaeth o effaith troseddau ar y dioddefwr, wedi'u trafod yn ddigonol yn y pedwar achos a archwiliwyd.
- Nid oedd yr un o'r ffeiliau achos a archwiliwyd yn bodloni'r safon genedlaethol o ran cydymffurfio ag amodau'r gorchymyn/trwydded.
- Roedd gwelliannau troseddegol yn siomi mewn tri achos hefyd. Cawsom fod naill ai dirywiad, neu dim newid, mewn meysydd allweddol fel perthnasoedd teuluol a phersonol; cyflogaeth; hyfforddiant ac addysg bellach; dull o fyw; defnydd sylweddau; iechyd corfforol a meddyliol; agwedd at droseddu; a chymhelliant i newid.

ASESIAD CYFFREDINOL O WAITH Â PHLANT A PHOBL SY'N DESTUN GCHau

Bernir bod yr adran hon yn annigonol.

5. DIODDEFWYR A CHYFIAWNDER ADFEROL

Dyfarniad allweddol:

- *Mae dioddefwyr plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu yn teimlo'u bod wedi cael eu cynorthwyo gan ymyriad y TTI ddod ag achos i derfyn.*

Swyddog yr heddlu a chydlynwyr cyfiawnder adferol a fu'n gweithio yn y GTI oedd yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu gwaith gyda dioddefwyr. Gwnaethant gysylltu â holl ddioddefwyr pobl ifanc a fu'n destun rhybuddion terfynol a gorchmynion cyfeirio. Cafodd swyddog yr heddlu fanylion dioddefwyr a thrwy gydgysylltu â'r heddlu nodwyd risgiau posibl er mwyn sicrhau diogelwch pob parti o dan sylw.

Cafodd pob dioddefwr ei wahodd i gymryd rhan yn y broses cyfiawnder adferol fel rhan o'r rhybudd terfynol a'r gorchymyn cyfeirio. Anogwyd pob dioddefwr i gyfranogi er eu lles personol eu hun fel blaenoriaeth gyntaf ac nid yn bennaf er lles y plentyn neu'r person ifanc.

Cryfderau:

- Rhoddodd yr heddlu wybod i'r GTI am fanylion y dioddefwr yn ôl gofynion y safonau cenedlaethol ym mhob achos perthnasol. Ymgynghorwyd â'r dioddefwr am waith adfer neu gyfiawnder adferol gyda'r plant a'r bobl ifanc mewn 63% [19 achos], a'u gwahodd i gymryd rhan mewn unrhyw waith mewn 58% [18 achos].
- Cymerodd gwaith gyda dioddefwyr i ystyriaeth anghenion unigol o ran diwylliant, iaith, rhyw ac ystyriaethau amrywiaeth eraill y bobl ifanc a'r dioddefwyr fel ei gilydd mewn 80% o'r achosion a archwiliwyd.
- Cafodd gwaith gyda dioddefwyr ei deilwra i fodloni gofynion hil/ethnigrwydd, iaith a rhyw mewn 94% o'r sampl achosion, ar gyfartaledd.
- Cafodd adroddiad ysgrifenedig ei baratoi ar gyfer y panel cyfeirio a dechreuodd gwaith adfer cymunedol o fewn tri mis cyntaf y gorchymyn ym mhob un o'r achosion a archwiliwyd.
- Roedd y cydlynwyr cyfiawnder adferol wedi'u hyfforddi'n llawn mewn gwaith dioddefwyr a chyfryngu. Cysylltwyd â dioddefwyr naill ai dros y ffôn neu drwy lythyr a chynigiwyd y cyfle iddynt gael ymweliad gan Gymorth i Ddioddefwyr a/neu eu cyfeirio atynt. Hefyd cawsant daflenni gwybodaeth a esboniodd waith Cymorth i Ddioddefwyr a'r tîm GTI mewn perthynas â phrosesau adferol a'r mathau o waith adfer y gallai'r plentyn neu'r person ifanc eu gwneud. Roedd y taflenni hyn ar gael yn Gymraeg a Saesneg a gallai dioddefwyr ddewis gwasanaeth yn yr iaith a oedd orau ganddynt. Cafodd

dioddefwyr y cyfle i adrodd eu profiadau ac i fynegi eu teimladau ac ymgynghorwyd â nhw am sut yr hoffent gymryd rhan yn y broses. Gallai hyn amrywio o ddatganiadau dioddefwyr, i fynychu rhybudd terfynol adferol a chyfryngu rhwng y dioddefwr a'r troseddwr.

- Ar ôl i'r dioddefwr benderfynu cymryd rhan mewn cyfryngu rhwng y dioddefwr a'r person ifanc, trafododd y cydlynydd cyfiawnder adferol y cais gyda rheolwr yr achos er mwyn sicrhau bod y person ifanc yn fodlon ac yn barod i gymryd rhan yn y broses.
- Cynigiwyd cyfle o ddioddefwyr bennu'r math o waith adfer yr hoffent weld y person ifanc yn ei wneud hefyd. Gallai hwn fod yn adfer uniongyrchol neu anuniongyrchol, neu'n gyfuniad o'r ddau. Roedd yr ymyriadau eraill a oedd ar gael yn cynnwys cynadleddau cyfiawnder adferol, llythyron ymddiheuro a chyfryngu rhwng y dioddefwr a'r troseddwr. Pan nad oedd dioddefwr wedi cymryd rhan yn y broses, ond wedi gofyn am gael gwybod am ganlyniad panel neu rybudd terfynol, cyfrifoldeb rheolwr yr achos oedd cysylltu â nhw gyda'r wybodaeth berthnasol.
- Aeth oedolyn wedi'i hyfforddi'n addas ac wedi'i wirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol gyda phob plentyn a pherson ifanc wrth iddynt wneud gwaith adfer; cafodd lleoliadau eu hasesu o ran risg hefyd.
- Digwyddodd gwaith adfer cymunedol o fewn tri mis cyntaf y gorchymyn ym mhob achos addas.
- Cyn i'r achos gael ei gau, anfonwyd holiadur boddhad at ddioddefwyr, rhieni a'r person ifanc a gyflawnodd y drosedd yn gofyn am eu barn am y gwasanaeth a gawsant. Cafodd amlen bwrpasol â stamp arni ei hamgáu ar gyfer eu hymateb ond dywedwyd wrthym y bu'r gyfradd ymateb yn isel.

Arfer da

Cafodd un dioddefwr ifanc ei gynnwys yn llwyddiannus mewn ymyriad cyfiawnder adferol yn dilyn ymosodiad difrifol gan berson ifanc chwe blynedd yn hŷn nag ef a ymgymerodd, fel rhan o'r contract, â gwaith adfer cymunedol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yn ystod y broses adferol, cafodd cyfarfod ei hwyluso'n llwyddiannus ac yn fedrus rhwng y dioddefwr a'r person a gyflawnodd y drosedd, a'r canlyniad oedd dioddefwr bodlon a pherson ifanc a ymatebodd yn gadarnhaol, wedi iddo droseddu, i adfer cymunedol. Cafodd gymorth hefyd i fynd i'r afael â'i broblem cyffuriau ac alcohol ac roedd wedi dechrau prentisiaeth yn y Parc Cenedlaethol a ariannwyd drwy adran diogelwch cymunedol. Cyfwelwyd â'r dioddefwr ifanc a'i fam ac roeddent o'r farn y bu'r canlyniad yn llwyddiannus iawn i bawb o dan sylw.

Meysydd i'w gwella:

- Dim ond mewn 58% [18 achos] o'r sampl y cafodd gwaith ei wneud gyda'r plentyn neu'r person ifanc i godi eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o effaith y drosedd ar y dioddefwr.

- Gwnaed gwaith paratoi annigonol gyda phlant a phobl ifanc cyn ysgrifennu ac anfon llythyr ymddiheuro at y dioddefwr.
- O'r dadansoddiad o'r sampl achosion, gwnaeth y plentyn neu'r person ifanc iawn yn uniongyrchol i'r dioddefwr mewn 10% [tri achos] ac iawn anuniongyrchol mewn 43% [12 achos]. Nid oedd peth o'r gwaith gwneud yn iawn yn cael ei farnu'n briodol ac ni chafodd ei bennu fel rhan o gontract ac roedd yn anodd ei fonitro neu ei orfodi.
- Lle bu iawn anuniongyrchol, cafodd barn y dioddefwr ei chyflwyno i'r panel cyfeirio mewn dau yn unig o'r naw achos a archwiliwyd, a'i chynnwys mewn gwaith adfer cymunedol mewn pedwar allan o naw achos.
- Câi gwaith y GTI gyda dioddefwyr ei gryfhau drwy sefydlu swydd swyddog cydgysylltu â dioddefwyr. Byddai'r gyfryw swydd yn caniatáu hyfforddi mwy o staff mewn cyfryngu ac ymwybyddiaeth o ddioddefwyr ac yn gyffredinol wella'r wybodaeth am waith gyda dioddefwyr a chyfiawnder adferol drwy gydol y tîm.

Arfer da

Cyfwelwyd â thri oedolyn a oedd wedi dioddef trosedd ac roeddent yn ganmoliaethus iawn am eu hymwneud â'r GTI. Dywedodd bob un o'r tri y cysylltwyd â hwy'n bersonol, un dros y ffôn a'r lleill drwy ymweliad personol visit. Adroddant y bu ganddynt ddewis go iawn am eu hymwneud, y gwrandawyd arnynt, eu trin gyda pharch a'u bod yn credu bod y canlyniad yn deg iddynt hwy eu hunain ac i'r person ifanc o dan sylw. Serch hynny, byddent wedi hoffi cael mwy o wybodaeth am a oedd y person ifanc wedi aildroseddu a chanlyniad unrhyw achosion llys.

ASESIAD CYFFREDINOL AR GYFER GWAITH GYDA DIODDEFWYR A CHYFIAWNDER ADFEROL

Bernir bod yr adran hon yn ddigonol.

Arolygu TTIau ar y Cyd

Rhaglen annibynnol yw arolygu TTIau ar y cyd, a ariennir gan y Swyddfa Gartref ac sy'n adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol. Cynhelir arolygiadau ar y cyd, ac maent yn cynnwys y Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol, Estyn, y Comisiwn Gofal Iechyd, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ACEM, Arolygiaeth Carchardai EM, Arolygiaeth Prawf EM, Ofsted ac AGCC fel y bo'n briodol. Mae'r tîm arolygu ar y cyd wedi'i leoli yn Arolygiaeth Prawf EM a chaiff ei arwain ganddo.

Amcanion y Swyddfa Gartref

Mae'r arolygiad ar y cyd yn cyfrannu'n bennaf at gyflawni Amcan II y Swyddfa Gartref – 'caiff mwy o droseddwyr eu dal, eu cosbi ac maent yn rhoi'r gorau i droseddu, a chaiff dioddefwyr eu cefnogi'n well', ac at y gofyniad i sicrhau bod dedfrydau gwarchodol a chymunedol yn fwy effeithiol wrth roi terfyn ar droseddu.

Mae hefyd yn cyfrannu at gyflawni Amcan III, trwy archwilio gwaith i fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau a sylweddau eraill, ac at amcanion perthnasol eraill system cyfiawnder troseddol a Gwasanaethau Plant yn Lloegr ac amcanion Ymestyn Hawliau yng Nghymru.

Diben yr arolygiad ar y cyd yw adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol a, thrwyddo ef, y Senedd a'r cyhoedd, ar effeithiolrwydd y TTIau yn cyflawni eu dyletswyddau statudol i atal plant a phobl ifanc sy'n troseddu, a thrwy hynny diogelu'r cyhoedd, wrth warchod eu hawliau a hyrwyddo'u lles ar yr un pryd.

Nodau'r rhaglen yw:

- asesu'r effaith a wnaed gan TTIau a sefydliadau partner ar atal troseddu gan blant a phobl ifanc trwy oruchwyliaeth effeithiol
- gwerthuso'r gwaith a wna TTIau a sefydliadau partner i fodloni anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu a'u galluogi i fyw bywydau adeiladol a chadw at y gyfraith
- gwerthuso rôl y TTIau wrth ddiogelu hawliau a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc
- asesu'r graddau y mae TTIau yn bodloni'r safonau a'r targedau gofynnol a osodwyd gan y BCI
- hyrwyddo arfer da yn nhrefniadau rheoli TTIau a chyflwyno gwasanaeth i'r llysoedd a'r gymuned
- nodi tanberfformio a gwneud argymhellion i hyrwyddo gwelliannau
- gwerthuso defnydd effeithiol o ran adnoddau
- hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn weithredol fel rhan anhepgor o'r broses arolygu
- llunio adroddiadau amserol sy'n cyfrannu at berfformiad gwell trwy lywio polisi ac arfer.

Trefniadau arolygu

- Cynhelir yr arolygiad TTI ar y cyd yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth i arolygiad cyfatebol a chydlynus mewn llywodraeth leol. Mae'n:
  - gymesur o ran risg, gyda gwaith maes wedi'i addasu yn ôl amgylchiadau'r TTI ac yn cael ei gynnal i nodi canfyddiadau neu i ledaenu arfer da yn unig
  - ategu at, ac yn cael ei gydlynu gyda rhaglenni arolygu eraill, gan gynnwys yr AAC yn Lloegr, ac arolygiadau a gynhelir fel rhan o RhCG a Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru
  - llywio barnau a luniwyd yn yr APB a'r APC yn Lloegr.
- Mae'r meini prawf ar gyfer trydydd cyfnod yr arolygiad yn canolbwyntio ar:
  - reoli
  - gwaith yn y llysoedd
  - gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned
  - gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun GCHau
  - dioddefwyr a chyfiawnder adferol.
- Cyn yr arolygiad, gofynnir i bob TTI gyflwyno gwybodaeth ymlaen llaw a chwblhau hunanasesiad, yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella.
- Yn Lloegr, cynhelir gwaith maes ar gyfer pob arolygiad unigol dros gyfnod o wythnos, cyn yr AAC. Mae'n cynnwys:
  - asesiad o sampl gynrychioliadol o ffeiliau achos unigol
  - cyfarfodydd gyda rheolwyr perthnasol, cynrychiolwyr sefydliadau partner ac aelodau o staff y TTI
  - cyswllt â phlant a phobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr a dioddefwyr troseddau a gyflawnwyd gan blant a phobl ifanc sy'n cael eu goruchwylio gan y TTI.
- Mae gwaith maes yng Nghymru yn cynnwys yr un elfennau ond mae'n gysylltiedig ag arolygiadau a gynhelir fel rhan o RhCG, a Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid. Felly, gellid cynnal yr asesiad o ffeiliau achos cyn y cyfarfodydd â rheolwyr a staff. Fodd bynnag, mae cyfanswm yr amser a dreulir o fewn y TTI yn aros yr un fath ag yn Lloegr.
- Mae'r asesiad o ffeiliau achos yn cynnwys sampl gynrychioliadol o rhwng 30 ac 80 o blant a phobl ifanc (yn dibynnu ar faich gwaith y TTI) a fu'n agored i ryw fath o ymyriad yn ystod y misoedd blaenorol. Mae'r achosion yn ymdrin â'r rhan fwyaf o orchmynion, gan gynnwys trwyddedau a chânt eu harchwilio'n fanwl. Caiff y rheolwr achos ac unrhyw un arall sy'n cymryd rhan sylweddol mewn cyflwyno'r ymyriad eu cyfweld fel rhan o'r ymarfer darllen ffeiliau, a lle y bo'n bosibl, y plentyn neu'r person ifanc ei hun a'i rieni/ofalwyr.

- Er mwyn annog hunanasesu a chynyddu perchnogaeth o ganfyddiadau'r arolygiad, rydym yn gwahodd TTIau i secondio aelod o'u staff, ymarferwr profiadol fel arfer, fel cynrychiolydd sy'n mynd gyda'r tîm arolygu, ar gyfer wythnos y gwaith maes. Rydym yn ystyried bod hyn yn ffordd gadarnhaol o ddatblygu dealltwriaeth gyffredinol a chryfhau'r cysylltiadau rhwng arolygu ac arfer.
- Bydd canfyddiadau'r arolygiad yn cael eu casglu mewn adroddiad sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer gwella. Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu cynllunio i annog y TTI yn ei waith, i gefnogi arfer da ac i hyrwyddo gwelliannau.
- Cyflwynir yr adroddiad i'r Ysgrifennydd Cartref, yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am gyfiawnder ieuenctid, gyda chopïau cydamserol i'r Ysgrifenyddion Addysg ac Iechyd. Yng Nghymru, cyflwynir adroddiadau i Weinidogion Gofal ac Adfywio Cymdeithasol, Dysgu Gydol Oes, Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd yn ogystal â'r Gweinidog Plant.
- Cyhoeddir adroddiadau ar TTIau yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ein nod yw cyflawni ein cyfrifoldebau eraill o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn unol ag egwyddor ganolog cydraddoldeb a ymgorfforir yn y Ddeddf.
- Anfonir copi at y BCI. Trefnir hefyd bod copïau ar gael i'r wasg, ac fe'u rhoddir ar wefan Arolygiaeth Prawf EM yn:

  http://www.inspectorates.homeoffice.gov.uk/hmiprobation

Cod ymarfer

Bydd pob arolygiad:

- yn cael eu cynnal gyda gonestrwydd mewn modd proffesiynol, diduedd a chwrtais
- yn galluogi datblygu barnau annibynnol, yn seiliedig ar dystiolaeth
- yn ceisio symbylu ac ymgysylltu â staff
- yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth hiliol trwy gydol ei brosesau
- yn arwain at gyhoeddi adroddiad amserol sy'n cynnwys canfyddiadau ac argymhellion ar gyfer gwella.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno rhoi sylwadau ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n dod o fewn cylch gorchwyl y rhaglen arolygu hon, ysgrifennu at:

HM Chief Inspector of Probation
2nd Floor, Ashley House
2 Monck Street
London
SW1P 2BQ

Dull sgorio

Newidiwyd y dull sgorio hwn yn sylweddol yng nghyfnod tri'r rhaglen arolygu i sicrhau ei fod yn cyfateb i ddull sgorio'r AAC ac Asesu Corfforaethol yn Lloegr, a'r barnau tebyg a ddefnyddir mewn arolygiadau a ddefnyddir mewn arolygiadau a gynhelir fel rhan o RhCG a Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru.

Yng nghyfnod tri, caiff pob un o bum adran yr arolygiad eu hasesu'n unigol yn erbyn y meini prawf perthnasol. Mae asesiadau'n seiliedig ar:

- wybodaeth a ddarperir gan y TTI
- cyfweliadau â phrif swyddogion, rheolwyr a staff o'r TTI a sefydliadau partner eraill
- archwiliad o ffeiliau achos
- trafodaethau â rheolwyr achos a phobl eraill sy'n cymryd rhan sylweddol yn y broses oruchwylio
- safbwynt y plant a'r bobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr, a lle y bo'n bosibl, eu dioddefwyr, y cysylltwyd â nhw yn ystod yr arolygiad
- gwybodaeth a ddarperir gan yr AAC, yr Asesiad Corfforaethol a chanfyddiadau arolygu perthnasol eraill yn Lloegr ac arolygiadau fel rhan o RhCG a Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru.

Rhoddir y barnau a'u disgrifwyr yn y tabl isod:

Barn	Disgrifiwr
4	Ardderchog – perfformio'n gryf, yn llawer uwch na'r gofynion lleiaf gyda nodweddion rhagorol
3	Da – perfformio'n dda, yn uwch na'r gofynion lleiaf yn gyson heb unrhyw ddiffygion pwysig
2	Digonol – bodloni'r gofynion lleiaf yn unig
1	Annigonol – nid yw'n cyflawni'r gofynion lleiaf, gyda llawer o ddiffygion pwysig

Rydym yn crynhoi barnau'r pum adran mewn asesiad cyffredinol. Rydym wedi penderfynu na fyddwn yn categoreiddio'n gyffredinol ar berfformiad ar y cyfan yng nghyfnod tri, gan ein bod yn dymuno i bob TTI ganolbwyntio ar ei feysydd penodol eu hunain ar gyfer gwella.

Y camau nesaf

- Gofynnir i'r TTI anfon ymateb i'r argymhellion, at y prif arolygydd, ynghyd â chynllun gweithredu ymhen tri mis i gyhoeddi'r adroddiad. Disgwylir mynd i'r afael â'r argymhellion fel arfer ymhen 12 mis o gyhoeddi i roi amser digonol ar gyfer integreiddio mewn datblygiadau presennol.
- Pan fydd y prif arolygydd wedi cytuno ar y cynllun gweithredu, bydd yn cael ei drosglwyddo i'r BCI i fonitro gweithredu'r argymhellion.
- Nid yw'r rhaglen arolygu ar y cyd fel arfer yn cynnwys unrhyw gamau dilynol oni bai bod materion yn codi yn ystod y rhaglen a oedd yn achosi pryder mor ddifrifol bod angen rhoi sylw iddynt ar unwaith. Yng ngoleuni canfyddiadau'r arolygiad o TTI Powys, rydym yn bwriadu cynna; arolygiad dilynol byr yn gynnar yn 2007.
- Yn ogystal â'r adroddiadau ar TTIau unigol, mae'r arolygiad tîm ar y cyd hefyd yn cyhoeddi adroddiadau cyfnodol ar ganfyddiadau ar draws nifer o dimau. Mae adroddiadau o'r fath yn cynnwys sylwadau ar gydraddoldeb hiliol a materion amrywiaeth a gwybodaeth arall am dueddiadau. Maent hefyd yn cynnwys cymariaethau rhwng perfformiad TTIau sydd â nodweddion tebyg.

Meini prawf arolygu ar gyfer TTIau yn Lloegr

1. Rheoli

1.1: Arweinyddiaeth

Dyfarniad allweddol

1.1.1: Mae'r Bwrdd Rheoli yn darparu arolygiaeth a chyfeiriad strategol, ac yn cydlynu darpariaeth gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid gan y TTI a sefydliadau partner.

Tystiolaeth

1.1.1.1 Mae yna linell atebolrwydd glir ar gyfer y TTI i Brif Weithredwr yr awdurdod lleol, a chaiff cynlluniau TTI eu hintegreiddio â chynlluniau'r cyngor ehangach.

1.1.1.2 Mae'r Bwrdd Rheoli yn cynnwys cynrychiolwyr sefydliadau partner sy'n mynychu ac yn cymryd rhan yn weithredol mewn cyfarfodydd.

1.1.1.3 Mae aelodau'r Bwrdd Rheoli yn cynrychioli anghenion y TTI i'w sefydliadau rhiant.

1.1.1.4 Mae'r Bwrdd Rheoli yn rhoi cymorth ac arweiniad i Reolwr y TTI i sicrhau eu bod yn ymgysylltu â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ac yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a materion amrywiaeth ehangach.

1.1.1.5 Mae'r Bwrdd Rheoli yn sicrhau bod y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yn cael ei weithredu.

1.1.1.6 Mae'r Bwrdd Rheoli yn sicrhau darpariaeth dychweliadau data cywir ac amserol, at ei ddefnydd ei hun ac at ddefnydd y BCI.

1.1.1.7 Mae partneriaid yn adolygu, yn monitro ac yn gwerthuso gwybodaeth am y gwasanaeth ar y cyd yn rheolaidd i sicrhau bod y TTI yn cyfrannu at wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc.

1.2 Partneriaeth ac adnoddau

Dyfarniad allweddol

1.2.1: Mae sefydliadau partner a'r TTI yn gweithio gyda'i gilydd i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu.

Tystiolaeth

1.2.1.1 Mae'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yn adlewyrchu strategaethau partner.

1.2.1.2 Nodwyd adnoddau a cheir gallu i fodloni angen a aseswyd.

1.2.1.3 Mae TTIau wedi'u staffio'n briodol gan bartneriaid yn unol â deddfwriaeth ac arweiniad y Swyddfa Gartref/BCI.

1.2.1.4 Cytunwyd ar brotocolau, contractau a CLGau rhwng y TTI, ei bartneriaid statudol a sefydliadau perthnasol eraill i fynd i'r afael â chydlynu gwaith, cyflwyno gwasanaethau, rhannu gwybodaeth, adnoddau dynol a threfniadau cyllid. Cânt eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

1.2.1.5 Mae'r TTI yn aelod o'r PAAP/Bwrdd Diogelu Plant Lleol, ac yn gweithredu yn unol â gweithdrefnau amddiffyn plant lleol.

1.2.1.6 Mae'r TTI yn cyfrannu at ymagwedd asiantaeth ar y cyd i reoli troseddwyr risg uchel yn y gymuned, gan gynnwys MAPPA a chofrestru â'r heddlu.

1.2.1.7 Mae yna drefniadau cadarn ar gyfer cofnodi a rhannu gwybodaeth am blant a phobl ifanc sydd mewn perygl, gan gynnwys y rheiny sy'n symud ar draws ffiniau gwasanaeth.

1.2.1.8 Darperir ystod o ymyriadau a gwasanaethau, gan gynnwys iechyd ac addysg, ar draws yr awdurdod i fodloni anghenion plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu a'r rheiny sydd mewn perygl o droseddu.

1.2.1.9 Mae'r TTI yn cyfrannu at fentrau adfywio cymunedol sydd wedi'u targedu at y meysydd mwyaf anghenus ac mae'n mynd i'r afael â'r ystod eang o anghenion teulu mewn ffordd integredig.

1.2.1.10 Mae'r TTI yn cyfrannu at ganlyniadau llwyddiannus wrth leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn enwedig trwy weithio partneriaeth effeithiol.

1.3 Goruchwylio, datblygu a hyfforddi staff

Dyfarniad allweddol

1.3.1: Caiff canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc eu gwella gan staff effeithiol.

Tystiolaeth

1.3.1.1 Diffinnir arfer gan bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig.

1.3.1.2 Caiff staff eu goruchwylio'n rheolaidd o fewn fframwaith rheoli perfformiad, yn unol â'u hanghenion datblygiadol a lefel asesedig eu gallu.

1.3.1.3 Mae gwerthusiadau blynyddol yn cynnwys amcanion sy'n gysylltiedig â thargedau lleol a chenedlaethol.

1.3.1.4 Mae gan yr holl staff gymwysterau priodol, a chânt gyfleoedd hyfforddi i'w paratoi i fodloni gofynion y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid i nodi a rheoli risgiau ac i godi pryderon ynghylch diogelu.

1.3.1.5 Caiff anghenion hyfforddi eu hadolygu'n rheolaidd.

1.3.1.6 Mae gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi'n briodol ac maent ar gael ar gyfer gweithgareddau TTI.

1.3.1.7 Cynhelir gwiriadau'r SCT ar yr holl staff a gwirfoddolwyr sydd â mynediad at blant a phobl ifanc neu eu ffeiliau achos, a chânt eu diweddaru o leiaf bob tair blynedd.

1.3.1.8 Mae cytundebau ar y cyd ar waith ar gyfer rheoli gweithdrefnau disgyblaethol, gallu a chwyno.

1.3.1.9 Mae yna weithdrefn gwynion ysgrifenedig, sy'n cael cyhoeddusrwydd da ac ar gael yn hawdd. Caiff cwynion eu rheoli'n briodol yn unol â'r weithdrefn.

1.3.1.10 Cynhelir asesiadau iechyd a diogelwch o gyfleusterau a gweithgareddau, gweithredir arnynt a chânt eu diweddaru'n rheolaidd.

2. Gwaith yn y llysoedd

Dyfarniad allweddol

2.1: Ceir perthynas waith dda rhwng y TTI a'r llys lleol.

Tystiolaeth

2.1.1 Mae cytundeb ar waith rhwng y TTI, clerc yr ynadon neu ei (h)uwch gyfreithiwr enwebedig ac mae'r Llys y Goron lleol yn ymdrin â threfniadau ar gyfer gwasanaethau llys.

2.1.2 Mae'r TTI yn darparu staff hyfforddedig a gwybodus i sicrhau cynrychiolaeth ddigonol mewn unrhyw lysoedd yn ei ardal ddaearyddol, gan gynnwys cyflenwi ar ddydd Sadwrn/gŵyl banc a Llysoedd y Goron.

2.1.3 Mae'r TTI yn mynychu ac yn cyfrannu at Grŵp Defnyddwyr Llys Ieuenctid, sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac y ceir manylion am ei ddiben yn y safon genedlaethol.

2.1.4 Mae'r TTI yn darparu cyfraniadau rheolaidd i staff llys ynadon a Llys y Goron am ystod o raglenni a dewisiadau dedfrydu.

Dyfarniad allweddol

2.2: Caiff arfer effeithiol gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu ei hyrwyddo gan waith y TTI o fewn y llysoedd.

Tystiolaeth

2.2.1 Rhoddir gwybodaeth ac apwyntiadau cyntaf i'r holl blant a phobl ifanc a wneir yn destun dedfrydau cymunedol neu raglenni goruchwylio a chefnogi mechnïaeth.

2.2.2 Caiff yr holl blant a phobl ifanc sydd wedi'u remandio neu eu dedfrydu i garchariad diogel neu warchodol, eu cyfweld, eu hasesu o ran gwendid, a rhoddir y wybodaeth i'r sefydliad o fewn amserlen y safon genedlaethol.

Dyfarniad allweddol

2.3: Caiff plant a phobl ifanc eu diogelu a chaiff y tebygolrwydd y byddant yn troseddu eto ei leihau trwy ddarparu gwasanaethau priodol, gan gynnwys rhaglenni goruchwylio a chefnogi mechnïaeth.

Tystiolaeth

2.3.1 Mae trefniadau ar waith rhwng y TTI a'r Adran Gwasanaethau Plant lleol o ran Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (1984), remandiau o lysoedd dydd Sadwrn/gŵyl banc a chwblhau'r gwaith papur priodol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi'u remandio i ofal yr awdurdod lleol.

2.3.2 Mae yna drefniadau ar waith, y mae'r TTI wedi cytuno iddynt, i nodi a rhybuddio'r TTI ynghylch yr holl blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael remand diogel neu warchodol.

2.3.3 Cynigir gwasanaethau cefnogi/goruchwylio gwahaniaethol, sy'n gymesur â'r tebygolrwydd o remand, i fynd i'r afael â gwrthwynebiad i fechnïaeth.

2.3.4 Darperir gwasanaethau dilynol i blant a phobl ifanc sydd wedi'u remandio'n ddiogel i sicrhau bod mwy o geisiadau mechnïaeth yn cael eu gwneud lle y bo'n briodol, a bod pecynnau cefnogi cymesurol i fynd gyda nhw.

Dyfarniad allweddol

2.4: Cynorthwyir llysoedd i wneud penderfyniadau cytbwys trwy ddarparu adroddiadau o ansawdd da gan y TTI.

Tystiolaeth

2.4.1 Caiff ACDau eu llunio yn unol â'r safonau cenedlaethol perthnasol, o ansawdd da, yn brydlon ac yn y fformat a gytunwyd.

2.4.2 Mae ACDau yn ddiduedd, nid ydynt yn cynnwys iaith wahaniaethol nac ystrydebau.

2.4.3 Mae cynigion yn briodol ac yn gymesurol.

2.4.4 Rhoddir copi o'r ACD i'r plentyn neu'r person ifanc a'u rhieni/gofalwyr, lle y bo'n briodol, ac mewn da bryd.

2.4.5 Mae ADP ac adroddiadau terfynu ar gael ac maent yn cynorthwyo'r llys wrth wneud penderfyniadau amserol.

3. Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned

3.1: Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu

Dyfarniad allweddol

3.1.1: Caiff plant a phobl ifanc eu hatal rhag troseddu.

Tystiolaeth

3.1.1.1 Mae'r TTI yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau yn yr awdurdod lleol i droi sylw plant a phobl ifanc oddi wrth droseddu.

3.1.1.2 Cytunwyd ar broses gan y TTI a'i bartneriaid i nodi ac asesu plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu.

3.1.1.3 Mae asesiadau yn sensitif i wahaniaeth diwylliannol ac amrywiaeth, ac yn gysylltiedig ag anghenion troseddegol.

3.1.1.4 Mae ymyriadau yn gynhwysol ac yn mynd i'r afael ag anghenion merched a menywod ifanc, plant a phobl ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r rheiny sydd ag anableddau.

3.1.1.5 Rhoddir sylw i ddiogelu plant a phobl ifanc.

3.1.1.6 Mae ymyriadau'n dangos effeithiolrwydd wrth leihau troseddu a hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol.

3.1.1.7 Mae gostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf.

3.2: Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu

Dyfarniad allweddol

3.2.1: Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu hatal rhag aildroseddu.

Tystiolaeth

3.2.1.1 Caiff ffurflen Asset ei llenwi'n llawn ar ddechrau pob ymyriad a'u hadolygu fel y bo'n briodol. Caiff ei llywio trwy gyswllt â gwasanaethau cymdeithasol a'r hunanasesiad, ac mae'n ystyried gwahaniaeth diwylliannol, amrywiaeth a materion diogelu.

3.2.1.2 Caiff risg niwed i eraill ei asesu'n llawn ym mhob achos y nodwyd ei fod yn achosi risg posibl, trwy'r ffurflen Asset gychwynnol neu offeryn arall a dderbynnir.

3.2.1.3 Ysgrifennir cynlluniau goruchwylio yn unol â safonau cenedlaethol, gyda phroses adferol dioddefwr, mae'n deillio o Asset ac yn cynnwys amcanion CAMPUS.

3.2.1.4 Mae ymyriadau'n mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol, maent wedi'u targedu mewn meysydd o angen a aseswyd a chânt eu gwerthuso ac maent yn gyson ag egwyddorion arfer effeithiol.

3.2.1.5 Mae ymyriadau yn gynhwysol ac yn mynd i'r afael ag anghenion penodol merched a menywod ifanc, plant a phobl ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r rheiny ag anableddau.

3.2.1.6 Mae cyswllt â phlant a phobl ifanc yn gyson â safonau cenedlaethol ac arweiniad y Swyddfa Gartref/BCI.

3.2.1.7 Mae gweithgarwch gorfodaeth yn dilyn diffyg cydymffurfio â graddfa amser y safon genedlaethol.

3.2.1.8 Cymerir camau i herio a lleihau gwahaniaethu ac aflonyddwch gan blant a phobl ifanc.

3.2.1.9 Mae archwiliad o'r ffeil achos yn darparu tystiolaeth o gynnydd.

3.2.1.10 Mae'r TTI yn dangos gostyngiad mewn troseddu yn y bandiau cosb cyn-llys, haen gyntaf a chymunedol.

3.2.1.11 Mae cyfrifon mynegol gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a phobl berthnasol eraill a holwyd, yn dangos gwelliannau mewn ymddygiad, agwedd a pherthnasoedd teuluol.

Dyfarniad allweddol

3.2.2: Caiff iechyd plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu ei hyrwyddo gan waith y TTI.

Tystiolaeth

3.2.2.1 Caiff staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc eu cynghori a'u cefnogi wrth nodi problemau corfforol ac iechyd meddwl posibl ac wrth wneud cyfeiriadau priodol.

3.2.2.2 Cynhelir asesiadau arbenigol ar y rheiny ag anghenion iechyd.

3.2.2.3 Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu rhybuddio rhag camddefnyddio sylweddau.

3.2.2.4 Caiff plant a phobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl eu cefnogi wrth gael mynediad at wasanaethau sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion a aseswyd.

3.2.2.5 Mae archwiliad o'r ffeil achos yn dangos tystiolaeth o ganlyniadau iechyd gwell.

3.2.2.6 Mae cyfrifon mynegol gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a phobl berthnasol eraill a holwyd, yn awgrymu gwelliant mewn iechyd corfforol a meddwl.

Dyfarniad allweddol

3.2.3: Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu diogelu trwy waith y TTI.

Tystiolaeth

3.2.3.1 Caiff risg niwed, naill ai i'ch hun neu i/gan eraill (gwendid), ei asesu'n llawn ym mhob achos.

3.2.3.2 Mae'r TTI yn cyfeirio achosion lle nodwyd pryderon diogelu, i'r Gwasanaeth Plant lleol ac mae'n cyfrannu at gynlluniau amddiffyn plant ar sail achos wrth achos.

3.2.3.3 Mae meini prawf trothwy ar gyfer gwneud cyfeiriadau diogelu ac ymateb iddynt yn glir ac yn cael eu deall yn eang gan staff o'r TTI a Gwasanaethau Plant.

3.2.3.4 Mae ymyriadau'n ystyried diogelu plant a phobl ifanc.

3.2.3.5 Mae tystiolaeth o gydweithio a rhannu gwybodaeth a chynlluniau â'r gweithiwr cymdeithasol a neilltuwyd, yn enwedig yn achosion Plant sy'n Derbyn Gofal.

3.2.3.6 Caiff Plant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi troseddu arweiniad a chymorth priodol.

3.2.3.7 Mae'r TTI yn cyfrannu at adolygiadau o Blant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi troseddu.

3.2.3.8 Mae archwiliad o ffeil achos yn dangos gostyngiad o ran ffactorau risg.

3.2.3.9 Mae cyfrifon mynegol o ganlyniadau gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a phobl berthnasol eraill a holwyd, dangos gostyngiad mewn gwendid.

Dyfarniad allweddol

3.2.4: Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu galluogi a'u hannog i gyflawni eu potensial.

Tystiolaeth

3.2.4.1 Cynhelir asesiadau arbenigol ar y rheiny ag anghenion addysgol penodol.

3.2.4.2 Mae ymyriadau'n hyrwyddo cyrhaeddiad a chânt eu targedu mewn meysydd o angen addysgol a aseswyd.

3.2.4.3 Rhoddir cymorth i blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu a'u rhieni/gofalwyr, i hyrwyddo ymddygiad da, presenoldeb yn yr ysgol a chyrhaeddiad addysgol.

3.2.4.4 Cymerir camau i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd wedi'u gwahardd yn barhaol o'r ysgol yn mynychu lleoliadau amgen sydd wedi'u hanelu at sicrhau ailintegreiddio i addysg brif ffrwd.

3.2.4.5 Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu cefnogi wrth sicrhau addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

3.2.4.6 Mae archwiliad o'r ffeil achos yn darparu tystiolaeth o gyflawniad a/neu gyrhaeddiad gwell.

3.2.4.7 Mae cyfrifon mynegol gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a phobl berthnasol eraill a holwyd, yn dangos cyflawniad a/neu gyrhaeddiad gwell.

Dyfarniad allweddol

3.2.5: Caiff canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc eu gwella gan eu cysylltiad trwy ymgynghori ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan y TTI.

Tystiolaeth

3.2.5.1 Mae'r TTI yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn ymgynghoriadau am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn.

3.2.5.2 Cymerir camau rhagweithiol i sicrhau bod plant a phobl ifanc mewn grwpiau lleiafrifol, plant iau a'r rheiny â phroblemau cyfathrebu yn gallu rhoi eu barn.

3.2.5.3 Mae ymgynghori â phlant a phobl ifanc yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i ansawdd darpariaeth y gwasanaeth.

3.2.5.4 Mae staff yn rhoi adborth effeithiol ar weithredu yn dilyn ymgynghori, neu ar faterion a godwyd gan blant a phobl ifanc unigol, gan gynnwys rhesymau dros beidio â gweithredu ar faterion penodol.

3.3: Gwaith gyda rhieni/gofalwyr

Dyfarniad allweddol

3.3.1: Cefnogir rhieni/gofalwyr wrth fynd i'r afael â throseddu eu plant.

Tystiolaeth

3.3.1.1 Cynhelir asesiadau o sgiliau magu plant mewn modd amserol, yn unol â chanllawiau arfer effeithiol y BCI ac fe'u defnyddir i lywio ymyriadau.

3.3.1.2 Gwneir rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o ofynion yr ymyriadau a chânt wybod am gynnydd yn ystod yr ymyriad.

3.3.1.3 Cyfeirir rhieni/gofalwyr at ymyriadau sy'n sensitif i anghenion amrywiol rhieni/gofalwyr o ystod o gefndiroedd diwylliannol ac maent ar gael ar sail wirfoddol a statudol.

3.3.1.4 Cefnogir rhieni/gofalwyr wrth fynd i'r afael ag ymddygiad eu plant.

3.3.1.5 Mae ymyriadau yn hyrwyddo magu plant yn effeithiol mewn perthynas â gallu'r rhieni/gofalwyr i ofalu, rheoli a diogelu'r plentyn neu'r person ifanc.

4. Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun GCHau

Dyfarniad allweddol

4.1: Caiff y tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc sy'n derbyn GCH yn troseddu eto ei leihau trwy ymyriad y TTI trwy asesiad.

Tystiolaeth

4.1.1 Llenwir ffurflen Asset sy'n ystyried gwahaniaeth diwylliannol, amrywiaeth, iechyd, addysg, diogelu a materion teulu, ac fe'i hanfonir i'r sefydliad diogel ar unwaith.

4.1.2 Caiff ffactorau risg penodol (e.e. risg niwed, naill ai i'ch hun neu i/gan eraill, iechyd neu gamddefnyddio sylweddau) eu hasesu a'u cyfathrebu i'r sefydliad diogel ar unwaith.

4.1.3 Mae'r gweithiwr TTI yn anfon copïau o'r holl asesiadau perthnasol, gan gynnwys cynlluniau gofal, ACDau, euogfarnau blaenorol, cynlluniau iechyd ac addysgol, i'r sefydliad diogel ymhen 24 awr i'r ymddangosiad llys.

4.1.4 Mae'r gweithiwr TTI yn cyfrannu at y cynllun hyfforddiant cychwynnol ac yn sicrhau ei fod yn cael ei lywio gan Asset.

4.1.5 Mae'r TTI yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r sefydliad diogel i sicrhau bod anghenion addysgol, hyfforddiant ac iechyd yn cael eu hasesu a'u datrys.

4.1.6 Cymerir camau i nodi a mynd i'r afael ag anghenion penodol plant â Gofal Drostynt, neu blant sy'n agored i niwed fel arall, merched a menywod ifanc, plant a phobl ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r rheiny ag anableddau.

4.1.7 Caiff anghenion cartrefi'r plentyn neu'r person ifanc adeg eu rhyddhau eu hasesu, a chymerir camau, lle y bo'n berthnasol, i atal colli llety presennol neu i sicrhau trefniadau sefydlog newydd.

Dyfarniad allweddol

4.2: Caiff y tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc sy'n derbyn GCHau yn aildroseddu ei leihau trwy ymyriad y TTI trwy gyswllt â'r plentyn neu'r person ifanc a chyswllt effeithiol â'r sefydliad gwarchodol yn ystod y cyfnod gwarchodol.

Tystiolaeth

4.2.1 Mae'r TTI yn cyfathrebu'n rheolaidd â phobl allweddol mewn sefydliadau diogel.

4.2.2 Mae'r gweithiwr TTI yn cyfrannu'n effeithiol at gynllunio dedfrydau a chyfarfodydd adolygu ac at adolygiadau o'r cynllun hyfforddi.

4.2.3 Mae'r TTI yn hwyluso cyswllt â'r holl ddarparwyr gwasanaeth sy'n berthnasol i anghenion y plentyn neu'r person ifanc a'r risg a gyflwynir ganddynt.

4.2.4 Caiff trefniadau i fodloni anghenion a aseswyd y person ifanc, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd, addysg a llety, eu pennu wrth baratoi ar gyfer eu rhyddhau.

4.2.5 Gwneir darpariaeth i fynd i'r afael ag anghenion penodol plant sy'n Derbyn Gofal neu blant sy'n agored i niwed fel arall, merched a menywod ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r rheiny sy'n anabl.

4.2.6 Mae'r gweithiwr TTI yn cyfrannu'n weithredol at y cyfarfod adolygu terfynol, yn unol â'r safon genedlaethol.

4.2.7 Caiff rhieni/gofalwyr eu hannog i fynychu cyfarfodydd cynllunio ac adolygu dedfryd, yn benodol, y cyfarfod adolygu terfynol.

Dyfarniad allweddol

4.3: Caiff y tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc sy'n derbyn GCHau ei leihau trwy ymyriad y TTI trwy ailintegreiddio i'r gymuned.

Tystiolaeth

4.3.1 Caiff y cynllun hyfforddi ei adolygu ymhen deg diwrnod gwaith ac o ganlyniad, bob tri mis neu ar ddiwedd y gorchymyn, pa bynnag un yw'r cynharaf.

4.3.2 Mae gweithiwr y TTI yn asesu ac yn monitro anghenion lletya'r plentyn neu'r person ifanc.

4.3.3 Mae gweithiwr y TTI yn monitro darpariaeth gwasanaethau iechyd ac addysg, a hysbysir y Bwrdd Rheoli pan na ddarperir y gwasanaethau hyn, yn unol â'r safon genedlaethol.

4.3.4 Mae cynllun dysgu unigol y plentyn neu'r person ifanc yn parhau ar ôl ei ryddhau a chaiff ei adolygu, ei ddiweddaru'n rheolaidd a'i rannu â darparwyr a sefydliadau perthnasol, yn enwedig Connexions.

4.3.5 Parheir ag ymyriadau a ddechreuwyd yn y ddalfa i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol, iechyd, diogelu ac addysg adeg rhyddhau, pan fo'n briodol.

4.3.6 Mae ymyriadau yn gynhwysol ac yn mynd i'r afael ag anghenion penodol merched a menywod ifanc, plant a phobl ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r rheiny ag anableddau.

4.3.7 Mae cyswllt y TTI â phlant a phobl ifanc a ryddheir o'r ddalfa yn gyson â'r safon genedlaethol ac arweiniad y Swyddfa Gartref/BCI.

4.3.8 Mae gweithgarwch gorfodaeth yn dilyn diffyg cydymffurfio ag amserlen y safon genedlaethol.

Dyfarniad allweddol

4.4: Mae'r TTI yn dangos canlyniadau cadarnhaol yn ei waith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun GCHau.

Tystiolaeth

4.4.1 Mae archwiliad o'r ffeil achos yn darparu tystiolaeth o gynnydd, a ddangosir, er enghraifft, gan agwedd at droseddu, perthynas gwell â theulu, canlyniadau iechyd, cyrhaeddiad addysgol a llai o wendid.

4.4.2 Mae'r TTI yn dangos gostyngiad mewn aildroseddu ar gyfer band gwarchodaeth cosbau.

4.4.3 Mae cyfrifon mynegol o ganlyniadau gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a phobl berthnasol a holwyd, yn dangos gwelliannau mewn ymddygiad ac agwedd.

5. Dioddefwyr a chyfiawnder adferol

Dyfarniad allweddol

5.1: Mae dioddefwyr plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu yn teimlo'u bod wedi cael eu cynorthwyo gan ymyriad y TTI ddod ag achos i derfyn.

Tystiolaeth

5.1.1 Cynhelir asesiadau o anghenion dioddefwyr yn gyson mewn modd amserol, yn unol â chanllawiau arfer effeithiol.

5.1.2 Rhoddir cyfle i bob dioddefwr wneud penderfyniadau cytbwys am eu cysylltiad â phrosesau adferol uniongyrchol/anuniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu a chânt eu cefnogi wrth wneud hynny.

5.1.3 Cynhelir sesiynau cyfathrebu mewn modd sensitif, yn ymatebol i anghenion, amgylchiadau, hoffter ac amrywiaeth unigol.

5.1.4 Cynigir cyfle i ddioddefwyr ddylanwadu ar unrhyw elfen atgyweiriol ar gynllun goruchwylio'r plentyn neu'r person ifanc a chael gwybod am eu cynnydd.

5.1.5 Mae gan ddioddefwyr fynediad at ymyriad adferol sydd wedi'i deilwra yn ôl eu hanghenion.

5.1.6 Darperir ymyriadau adferol ac atgyweiriol sy'n briodol i oedran, gwendid, diwylliant, ethnigrwydd, anghenion iaith, lefelau llythrennedd a rhyw'r dioddefwyr a phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu.

5.1.7 Cynigir cyfle i bob dioddefwr roi adborth a ddefnyddir i lywio gwaith y TTI.

5.1.8 Mae plant a phobl ifanc sy'n gysylltiedig ag ymyriadau adferol yn cyfrannu at y dioddefwr a'r gymuned mewn modd cadarnhaol.